Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Y wybodaeth ddiweddaraf am Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Ebrill-Mehefin 2023

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y Cyngor yn erbyn llinynnau mesur llywodraethu a themâu ei Gynllun Corfforaethol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, yn cynnwys ein defnydd o egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys

Cynnwys ....................................................................................................2

Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach ....................................................................3

Crynodeb o'r sefyllfa ...................................................................................................4

Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad............................................................................7

Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl ..............................8

Sir Ddinbych ffyniannus ............................................................................................18

Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus ...............................................................28

Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu................................................................................41

Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well .....................................................................52

Sir Ddinbych mwy gwyrdd.........................................................................................60

Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal ...................................................................69

Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ...............................79

Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad..............................87

## Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, neu i roi eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Drwy e-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Drwy'r post:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62,
Rhuthun,
LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn Gymraeg.

### I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Sgwrs y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Crynodeb o’r sefyllfa

Mae’r penodau isod yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod diwethaf o dan themâu ein Cynllun Corfforaethol, gyda chrynodeb o newyddion cyfrannol ac eitemau pwyllgor. Bydd yna rai agweddau i’w datblygu o hyd a rhai bylchau i’w llenwi; bydd rhai o’r rhain yn cael eu cadarnhau mewn adroddiadau dilynol, mae eraill yn fwy cymhleth a byddant angen eu cwmpasu ymhellach. Bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i ni sefydlu trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol o hydref 2023 ymlaen.

Ar y cyfan, mae mwy o brosiectau a gweithgareddau wedi’u dechrau yn ystod y cyfnod hwn. Gwelwyd gwelliannau o ran ein thema Tai ers ein hadroddiad diwethaf, gyda chynnydd mwy cadarnhaol mewn perthynas â phrosiectau sy’n cefnogi’r thema hon. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, rydym yn ymwybodol ac eisoes yn ymateb i fynd i’r afael â gwendidau yn ein perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â digartrefedd ble nad yw canlyniadau i’n cymunedau mor gadarnhaol ag yr ydym yn dymuno ac yn dyheu iddynt fod. Mae nifer y bobl sydd ar y rhestr aros Un Llwybr Mynediad at Dai yn parhau’n bryder. Mae ein thema Sir Ddinbych Ffyniannus yn cynnwys ystod o linynnau mesur ac rydym yn aros am ddata ar eu cyfer. Ar sail y wybodaeth sydd gennym, rydym yn ystyried ein llinynnau mesur perfformiad fel rhai ‘Derbyniol’ yn gyffredinol, ond mae rhai o’r llinynnau mesur hanfodol ar gyfer y thema hon wedi’u nodi fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Mae gwaith wedi dechrau ar strategaeth economaidd newydd ar gyfer Sir Ddinbych, a’r gobaith yw y bydd yn ysgogi newid cadarnhaol i fusnesau, ein heconomi a’n preswylwyr. O ran Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus, fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad diwethaf y byddai angen gosod trothwyon ar gyfer cymaint o linynnau mesur â phosibl, er mwyn ein helpu i farnu ein perfformiad ar gyfer y thema hon. Mae trothwyon wedi’u gosod ar gyfer rhai llinynnau mesur bellach ac mae newidiadau eraill wedi’u gwneud i sicrhau ein bod yn gallu casglu’r data sydd ei angen er mwyn llywio perfformiad yn y maes hwn yn gywir. Nid yw rhai llinynnau mesur i gefnogi ein thema Sir Ddinbych sy’n Dysgu a Thyfu wedi cael eu pennu eto, megis llinynnau mesur cyrhaeddiad. Gallwn adrodd bod nifer yr ysgolion naill ai dan Adolygiad Estyn, sydd angen Gwelliant Sylweddol neu mewn Mesurau Arbennig wedi gostwng o 3 i 2 yn ystod y cyfnod hwn. Mae’r Rhaglen Moderneiddio Addysg yn parhau i brofi oedi, a ddisgrifir mewn mwy o fanylder isod. Mae ein hasesiad cyffredinol o’n thema ar gyfer Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu’n well yr un fath â’r cyfnod blaenorol. Mae’r llinynnau mesur cyffredinol yn cael eu hystyried fel ‘Derbyniol’ ac mae prosiectau yn ‘Profi Rhwystrau’. Mae data cyflwr ffyrdd bellach ar gael. Ystyrir cyflwr ffyrdd dosbarth A a B fel

‘Rhagorol’ ond ystyrir ffyrdd dosbarth C fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Mae’r prosiect “Llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy (yn cynnwys Teithio Llesol) ar y cam achos busnes a bydd cyfarfod ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei gynnal yn fuan. Bydd angen rheoli’r gwaith hwn yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni’n gyflym. Mae sicrhau ein bod fel sefydliad yn cyflawni ein hymrwymiad di-garbon net erbyn 2030 yn parhau i fod yn her ac ni fydd yn hawdd ei gyflawni. Mae bod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 yn edrych yn fwy addawol. Mae gennym drefniadau llywodraethu cadarn ar waith i brofi ein cynnydd a’r cynlluniau sydd gennym ar waith. Cynhelir yr adnewyddiad a’r adolygiad swyddogol cyntaf o’r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol eleni, 2023-2024. Ni fydd y gwaith o gyflwyno’r strategaeth yn cael ei atal tra cynhelir yr adolygiad hwn; mae’r gwaith yn parhau ar y cyd â’r adolygiad i fod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon Net a lleihau allyriadau’r gadwyn gyflenwi. Cafodd ein dyfarniad cyffredinol ar gyfer llinynnau mesur y thema Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal ei israddio fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’ i adlewyrchu’r ffaith bod y rhan fwyaf o linynnau mesur hanfodol y thema hon wedi’u nodi fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’ ac wedi bod felly ers peth amser. Mae’r rhwystrau a’r heriau mewn perthynas â thlodi yn rhai parhaol mewn rhai achosion. Mae ein thema Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu wedi’i diweddaru yn dilyn cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, yn anffodus, gwelwyd rhywfaint o ddirywiad yn nifer y bobl sy’n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, sy’n ein hatgoffa cymaint o her yw hyrwyddo’r Gymraeg. Mae rhywfaint o gynnydd wedi’i wneud yn ystod y cyfnod hwn o ran cyflawni ein thema Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad, mewn perthynas â rheoli asedau a gweithredu cynlluniau i sefydlu Bwrdd newydd ar gyfer darparu trefniadau llywodraethu a goruchwylio yn y maes hwn. Mae’r saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunan-asesiad yn rhoi darlun cadarnhaol ar y cyfan o ba mor dda mae’r Cyngor yn perfformio, yn ogystal â rhai camau gwella. Cynhelir yr ail adolygiad cyfran o’r Cynllun Corfforaethol ym mis Medi 2023. Y nod yw caniatáu adlewyrchu ar berfformiad a chynnydd hyd yma, yn ogystal ag adolygu ffactorau allanol a allai beri risgiau neu gyfleoedd i’n huchelgeisiau. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau’r adolygiad cyfran yn ein hadroddiad nesaf. Bydd ein hadroddiad nesaf hefyd yn cynnwys unrhyw brosiectau newydd sydd ar y gweill i gefnogi ein themâu.

## Crynodeb o themâu'r Cynllun Corfforaethol

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob thema isod yn unol â’r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi’i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail statws ein prosiectau.

**Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych ffyniannus**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych mwy gwyrdd**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal**

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

**Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad**

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Profi Rhwystrau

## Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (y perfformwyr gorau) o'r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Rhagorol' ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

Mae ein tablau data yn defnyddio'r un iaith, ac eithrio 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella', sydd wedi'i fyrhau fel 'Blaenoriaeth i Wella'. Mae ein tablau data hefyd yn dangos gwybodaeth ynglŷn â thueddiadau. Caiff tueddiad ei nodi fel 'Gwell', 'Gwaeth' neu 'Yr un fath', ac mae'n seiliedig ar gymhariaeth gyda'r data sydd gennym ar gyfer y cyfnod blaenorol. Ble bo'n bosibl, rydym hefyd yn dangos tueddiad ar gyfer prosiectau a gweithgareddau, a bennir trwy gymharu statws cyffredinol y prosiect neu weithgaredd â'i statws yn y cyfnod blaenorol. Caiff statws prosiectau a gweithgareddau eu nodi fel 'Ar y Trywydd Iawn', 'Profi Rhwystrau', 'Mewn Perygl' neu 'Dan Fygythiad'.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, gweler y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

## Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Profi Rhwystrau

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

Mae’r thema hon yn cynnwys llawer o linynnau mesur blynyddol. Ceir sylwadau amdanynt yn ein hadroddiad diweddaru hunanasesu perfformiad mis Ionawr i fis Mawrth 2023-2024. Gallwn bellach roi’r wybodaeth ddiweddaraf am un llinyn mesur blynyddol nad oedd ar gael ar gyfer ein hadroddiad diwethaf. Darparwyd cyfanswm o 139 o dai fforddiadwy trwy’r cyflenwad ychwanegol yn ystod 2022-2023, sy’n ‘Rhagorol’ o ystyried mai ein nod yw darparu 300 uned o’r fath erbyn 2027. O ran y llinyn mesur hwn, y cyntaf o ddau bwynt i’w nodi yw bod cywiriad wedi’i wneud i’r ffigwr blynyddol ar gyfer 2021-22, o 222 (fel yr adroddwyd yn flaenorol) i 271. Mae hyn oherwydd ei bod hi’n anodd cyfrif nifer yr unedau a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar adeg yr adroddiad. Yn ail, nid yw’r gostyngiad yn y cyflenwad blynyddol yn destun pryder, gan fod y nifer ar gyfer 2021-2022 yn anarferol o uchel oherwydd amseriad cwblhau datblygiadau (gan gynnwys cyfleusterau gofal ychwanegol).

Gellir bellach adrodd bob chwarter ar ganran yr eiddo sector preifat gwag sy’n dod yn ôl i ddefnydd trwy weithred uniongyrchol gan y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae’r 2% a adroddwyd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023 yn ostyngiad i’r ffigwr o 6.1% rhwng mis Ionawr a mis Mawrth.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2023, roedd yna 1,785 o bobl ar y rhestr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (ULlMaD). Nid yw’r ffigwr wedi cyrraedd trothwy ‘Derbyniol’ eto; fodd bynnag, mae’n adlewyrchu cynnydd da o gymharu â’r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (2,075). Sylwch fod y ffigwr o 2,093 a nodwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023 yn ein hadroddiad diweddaru perfformiad diwethaf bellach wedi’i gywiro i 1,734. Mae hyn oherwydd bod yr adolygiad o’r rhestr aros wedi cael ei gynnal yn ystod y broses o drosglwyddo gwasanaeth ULlMaD Sir Ddinbych i dîm mewnol.

Mae atal digartrefedd yn flaenoriaeth i’r Cyngor, ac mae nifer o linynnau mesur wedi dechrau cael eu monitro er mwyn llywio’r maes gwasanaeth hwn. Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) digartrefedd o 80 ddiwedd mis Mawrth, i 43 erbyn diwedd mis

Mehefin. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd gostyngiad hefyd o 89.36% i 69.77% yng nghanran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal a gafodd eu hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth atal digartrefedd. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau ymgysylltiad cynnar â phobl mewn perygl o ddigartrefedd, a gallwn adrodd bod 28 o unigolion wedi cael eu cefnogi gan swyddog cyswllt o Dîm Atal Digartrefedd Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych erbyn diwedd mis Mehefin.

Mae darlun cliriach o sut y gellir cefnogi pobl i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi yn dod yn amlwg wrth ddechrau monitro llinynnau mesur newydd. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, gwyddom fod 85 o aelwydydd wedi'u cyfeirio a'u helpu trwy'r cynllun ECO4 - cynllun gan y Llywodraeth i ddarparu cyllid i berchnogion tai cymwys wneud gwelliannau ynni-effeithlon i'w cartrefi.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau yn ymwneud â'r gefnogaeth a gynhigir i unigolion sy'n profi digartrefedd, gweler ein thema Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu ac ar gyfer cysylltiadau rhwng effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, gweler ein thema am Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr eiddo sector preifat gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd trwy weithred uniongyrchol gan yr awdurdod lleol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 1% Blaenoriaeth i Wella | 8.5% Rhagorol Gwell | 6.4% Rhagorol Gwaeth | 6.1% Rhagorol Gwaeth | 2% Derbyniol Gwaeth |
| Canran yr atgyweiriadau tai brys a gwblhawyd o fewn yr amser targed - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 92.51% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 95.85% Derbyniol Gwell | 94.72% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 97.22% Derbyniol Gwell | 97.06% Derbyniol Gwaeth |
| Nifer yr addasiadau i bobl anabl a wnaed ar gyfer tenantiaid tai Cyngor – **Cyfrif yn Unig** | 59 | 66 | 64 | 56 | 53 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd gymorth drwy'r cynllun ECO4 - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 85 |
| Nifer yr ymweliadau â'n tudalen effeithlonrwydd ynni ar ein gwefan - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 319 |
| Nifer y bobl ar restr aros ULIMaD – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2,075 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 2,190 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 2,235 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 1,734 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 1,785 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ar gyfer Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 80 | 43 |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sydd wedi'u hatal rhag defnyddio'r gwasanaeth atal digartrefedd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 89.36% Rhagorol | 69.77% Derbyniol Gwaeth |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) ar gyfer pobl mewn cyflogaeth – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 22.5% | 13.04% |

| **Teitl** | **Chwarter 1 2022 - 2023** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** | **Chwarter 1 2023 - 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy’n a) Rhentu’n Breifat – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 63.75% | 53.49% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy’n b) Awdurdod Lleol – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 11.25% | 6.98% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy’n c) Cymdeithas Dai – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 2.5% | 0% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy’n d) Perchen-feddiannwr – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 5% | 4.65% |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Gynnar ac Atal (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy’n e) Anhysbys – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 17.5% | 34.88% |
| Nifer y bobl mewn perygl o ddigartrefedd a gefnogwyd gan y swyddog cyswllt CAD-HPT (Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych - Tîm Atal Digartrefedd) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 28 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| O'r bobl mewn perygl o ddigartrefedd a gefnogwyd gan y swyddog cyswllt CAD-HPT (Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych - Tîm Atal Digartrefedd), y % sydd mewn cyflogaeth - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 7% |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Nifer yr anheddau sydd wedi'u gwella gyda grant cyfleusterau i'r anabl - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 106 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 66 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Nifer y bobl a oedd ar y Gofrestr Anghenion Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 13 Rhagorol Gwell | 16 Rhagorol Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod yna ddigon o dai o ansawdd da yn Sir Ddinbych, sy'n diwallu anghenion pobl - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 31.19% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (adran 66) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 41.97% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 38.35% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (adran 73) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 21.55% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 15.96% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran yr aelwydydd a ryddhawyd yn gadarnhaol o ddigartrefedd (adran 75) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 44.75%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 50.22%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal ac yn profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) o fewn 12 mis i adael gofal - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 9<br>Da<br>Gwell | 3<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Canran eiddo'r Cyngor sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 100%<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 100%<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Canran y tenantiaid Tai Cyngor a oedd yn fodlon gydag ansawdd eu cartref - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 84%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | Dim data: nid yw'n berthnasol |
| Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r modd y mae Tai Sir Ddinbych yn ymdrin â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 77%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | Dim data: nid yw'n berthnasol |
| Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y Cyngor sy'n cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu well - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 35.44%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 41.89%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 271<br>Rhagorol<br>Gwell | 139<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Y cyflenwad ychwanegol o Dai Cyngor a ddarparwyd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 13<br>Derbyniol<br>Gwell | 15<br>Derbyniol<br>Gwell |

## Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Tai (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 16%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae pymtheg o brosiectau wedi'u rhestru o dan y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae nifer y rhain sydd 'Ar y trywydd iawn' wedi cynyddu o bump i ddeg ers ein hadroddiad diwethaf, ac mae hyn yn cynnwys tri phrosiect a gafodd eu dechrau ym mis Ebrill.

Mae prosiect Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun bellach 'Ar y trywydd iawn', ar ôl 'Profi Rhwystrau' yn y cyfnod diwethaf (mis Ionawr-Mawrth), mae'r gwaith wedi dechrau ac mae'r prosiect 'Ar y trywydd iawn' i fodloni'r terfyn amser newydd. Yn yr un modd, mae'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Dai a Digartrefedd wedi'i nodi 'Ar y trywydd iawn'. Mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu ac mae llawer ohonynt wedi'u cwblhau bellach.

Mae tri phrosiect yn 'Profi Rhwystrau' ac mae un ac mae un ar y cam achos busnes. Mae un prosiect yn parhau 'Mewn Perygl', sef Gwella Effeithlonrwydd Ynni Tai'r Cyngor. Bu'n rhaid lleihau'r nifer targed o eiddo i'w gwella eleni gan fod dulliau ariannu wedi newid ac yn debygol o fethu â bodloni'r hyn fyddai ei angen i gyflawni prosiect mor uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i wneud o ystyried bod sgôr cyfartalog y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn parhau i gynyddu ar draws stoc dai'r Cyngor.

### Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Premiwm treth y Cyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor

Ym mis Mai, cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu lefelau uchaf premiymau treth y Cyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor. Argymhellwyd ymateb pwyllog i gadw'r premiwm ar 50% ar gyfer mis Ebrill 2023, ac yna cynyddu'r premiwm i 100% ym mis Ebrill 2024 ac i 150% ym mis Ebrill 2025. Yn ogystal, fe awgrymwyd bod eiddo sydd heb eu meddiannu na'u dodrefnu ers 5 mlynedd neu fwy yn talu premiwm uwch o 50% yn fwy na'r premiwm safonol a bod y premiwm ar ail gartrefi safonol a'r premiwm ar gartrefi gwag hirdymor yr un

fath, er mwyn lleihau nifer yr achosion o  drethdalwyr yn  osgoi talu. Cytunodd y Cabinet ar y cynigion a fyddai'n llywio ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Cabinet a'r Cyngor wneud penderfyniadau terfynol. Cafodd y penderfyniad ei weithredu ar unwaith yn unol â pharagraff 7.25 Cyfansoddiad y Cyngor, oherwydd bod angen cwblhau'r ymgynghoriad angenrheidiol mewn modd amserol.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| **Teitl** | **Statws** | **Eithriadau** |
|---|---|---|
| Darparu a monitro Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Dai a Digartrefedd | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Gwella Effeithlonrwydd Ynni Tai'r Cyngor | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae sgôr cyfartalog Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn parhau i gynyddu ar draws ein stoc dai. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer y rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio wedi newid ac nid yw'n bodloni'r hyn sydd ei angen ar gyfer y prosiect uchelgeisiol hwn. Rydym wedi lleihau nifer yr eiddo rydym yn disgwyl iddynt gael eu gwella'n gyfan gwbl eleni i 43, gan ddewis y rhai sy'n perfformio'n wael ac angen gwaith sylweddol. |
| Cydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint, gan ddarparu manylion cyswllt a chyfeirio at effeithlonrwydd ynni cartrefi ar ein gwefan | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Hyrwyddo'r dudalen Effeithlonrwydd Ynni ar ein gwefan trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Cyfeirio at gynllun NYTH Llywodraeth Cymru drwy'r post | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Aros am adborth gan Lywodraeth Cymru ar y GTAA. Mae'r Bwrdd Prosiect a'r Grŵp Tasg a Gorffen Craffu yn parhau i gwrdd. Cysylltwyd â'r ymgynghorwyr i drefnu cyfweliadau. |
| Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun (Cam 2) | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Archwilio sut y gallwn ddiogelu tai drwy ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru i reoli effaith ail gartrefi | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Stryd Edward Henry | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithio gyda Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl i gyfrannu at ddatblygu Strategaeth Breswyl y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Aros ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) diwygiedig, er mwyn gallu cwblhau'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. |
| Datblygu systemau perfformiad ac adrodd yn dilyn cyflwyno'r ULIMaD a'r gwasanaeth brysbennu Un Pwynt Mynediad presennol er mwyn deall mwy ar ddinasyddion sy'n cyrchu gwybodaeth am dai / ULIMaD. | Profi Rhwystrau | Bydd datblygu systemau TGCh ymhellach yn sicrhau gallu gwell o ran perfformio ac adrodd. |
| Datblygu fframwaith cynnwys tenantiaid ar gyfer Tai Sir Ddinbych | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| ULIMaD: Ei gwneud yn broses fewnol | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a’r eitemau pwyllgor canlynol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin i gefnogi’r thema hon:

Trafodir cynlluniau arfaethedig y Cyngor i greu llety dros dro arbenigol ym Maes Emlyn yn y Rhyl mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhelir ar 3 Gorffennaf yng Nghanolfan Ieuenctid y Rhyl. Mae’r Cyngor yn cynnig cynllun tymor byr i ailddefnyddio rhan o safle Maes Emlyn fel llety brys dros dro ar gyfer pobl yn Sir Ddinbych sy’n profi digartrefedd. Y bwriad ar gyfer y safle cyfan yn yr hirdymor yw ymgynghori ar a chyflwyno ceisiadau cynllunio i ailddatblygu’r safle ar gyfer tai cymdeithasol newydd.

Mewn cyfarfod ar 9 Mai, gofynnwyd i’r Cyngor Llawn ystyried adroddiad ymgynghori ar gyfer disodli’r strategaeth a ffefrir yn y cynllun datblygu lleol.

Ym mis Mai, cyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor Craffu Partneriaethau gan yr adran Tai Cymunedol a oedd yn nodi rôl a chyfrifoldebau’r Cyngor o ran materion yn ymwneud â llwydni, cyddwysiad a diffyg atgyweirio mewn eiddo gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac eiddo’r sector rhentu preifat yn Sir Ddinbych.

## Sir Ddinbych ffyniannus

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Fe wnaethom adrodd yn flaenorol ein bod yn aros i rywfaint o ddata cenedlaethol gael ei gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn 2022-2023. Yr un yw'r achos ac rydym yn gobeithio y bydd modd i ni nodi data mwy diweddar mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn llywio ein dealltwriaeth o gyfraddau sefydlu a chau busnesau yn Sir Ddinbych. Mae gennym ddata STEAM ar gael ar gyfer 2021-2022, sy'n awgrymu bod effaith economaidd y ffigwr twristiaeth yn gwella, er bod hyn yn parhau fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella', ac rydym yn aros i ddata mwy diweddar gael ei ryddhau (yn yr haf). Bydd y data hwn yn cael ei ddadansoddi yn ein hadroddiad diweddaru perfformiad nesaf ar gyfer mis Gorffennaf i fis Medi. Mae sylwadau manwl wedi'u darparu ar gyfer y llinynnau mesur blynyddol eraill ac maent i'w gweld yn yr adroddiad diweddaru hunanasesiad perfformiad rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023-2024.

Mae ein data chwarterol yn awgrymu y bu gwelliant ymylol yng nghanran hawlwyr Credyd Cynhwysol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, er bod hyn yn parhau fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' ar 3.6%. Mae gwelliant pellach i'w weld yn nifer y lleoliadau profiad gwaith sy'n cael eu cynnig trwy Sir Ddinbych yn Gweithio. Nodwyd ffigwr 'Da' ar gyfer mis Ebrill i fis Mehefin. Sylwch fod y ffigwr a nodwyd ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth 2022-2023 wedi'i gywiro, gan ei fod wedi'i gofnodi'n anghywir fel 15 yn ein hadroddiad diwethaf. Roedd 66% o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1 miliwn sy'n cynnwys buddion cymunedol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023 ac mae perfformiad yn parhau i gael ei ystyried fel 'Rhagorol'.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth, gweler ein thema Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu; ar gyfer datblygiadau a buddion cymunedol, gweler ein thema am Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well. Yn olaf, am ragor o themâu sy'n gysylltiedig â'r economi leol, gweler Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl oedran gwaith sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 3.5% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 3.5% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 3.7% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 3.8% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 3.6% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Nifer y lleoliadau profiad gwaith gyda thâl a di-dâl a gynhigir drwy Sir Ddinbych yn Gweithio - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 19 Derbyniol Gwell | 38 Rhagorol Gwell | 16 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 26 Da Gwell |
| Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 39% Da Gwell | 35% Da Gwaeth | 35% Da Yr un fath | 35% Da Yr un fath | 33% Da Gwaeth |
| Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1 miliwn sy'n cynnwys buddion cymunedol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 100% Rhagorol Gwell | 64% Rhagorol Gwaeth | 64% Rhagorol Yr un fath | 66 % Rhagorol Gwell | 66 % Rhagorol Yr un fath |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Cyflog gros blynyddol cyfartalog unigolion sy'n byw yn yr ardal ac yn gweithio'n llawn amser (£) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 26,780 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 27,121 Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod gan Sir Ddinbych economi ffyniannus sy'n cynnig mynediad i'r sgiliau, swyddi ac incwm cywir – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 31.89% Blaenoriaeth i Wella |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Cyllid allanol (mewn punnoedd) a sicrhawyd ar gyfer datblygu economaidd - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| Canran y cyllid sydd ar gael a ddyfarnwyd gan y Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes ar gyfer grantiau eiddo masnachol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 432<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | Aros am ddata. Disgwylir ym mis Gorffennaf 2023 |
| Nifer y busnesau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Gohiriwyd oherwydd y pandemig | 390<br>Rhagorol<br>Gwell |
| Nifer y busnesau sy'n cael eu sefydlu fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 78<br>Da<br>Gwell | Aros am ddata cenedlaethol |
| Nifer y busnesau sy'n cau fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 89<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | Aros am ddata cenedlaethol |

## Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Incwm (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Ar y cyfan, mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r pedwar ar hugain o brosiectau a gweithgareddau a nodwyd ar gyfer cefnogi'r thema hon. Mae deuddeg prosiect 'Ar y trywydd iawn' ac mae saith ohonynt yn 'Profi Rhwystrau'. Mae statws un o'r rhai olaf, Adeiladau'r Frenhines yn y Rhyl, wedi gwella yn ystod y cyfnod hwn, ar ôl adrodd statws 'Mewn Perygl' rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Mae dau brosiect wrthi'n cael eu datblygu; mae un ar y cam achos busnes ac mae'r llall ar y cam briff prosiect.

Mae dau brosiect wedi'u nodi fel rhai 'Mewn Perygl'. Y cyntaf o'r rhain yw Hen Ysbyty Gogledd Cymru, a fydd yn parhau mewn perygl nes bydd cytundeb cyfreithiol adran 106 wedi'i sicrhau ac y bydd y cyllid angenrheidiol wedi'i dderbyn. Mae'r ail, sef prosiect i ailgysylltu pen uchaf Stryd Fawr y Rhyl â'r traeth 'Mewn Perygl' yn dilyn cais aflwyddiannus â Chronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl yn y cyfnod adrodd nesaf i drafod y prosiect mewn mwy o fanylder a sicrhau ein bod yn cynnal y momentwm.

Sylwch fod gweithgaredd i werthuso effaith yr Ardoll Twristiaeth wedi dod i ben, gan nad yw'r ardoll ei hun yn weithredol nac yn debygol o fod am beth amser, mewn gwirionedd. Bydd y gweithgaredd hwn yn ailddechrau pan ddaw'r ardoll i rym.

Bu i ni adrodd yn flaenorol bod datblygu Strategaeth Economaidd newydd y Cyngor yn weithgaredd bwysig ar gyfer y dyfodol o ran y thema hon. Mae'n galonogol gweld bod y gweithgaredd hwn wedi dechrau ac wedi'i nodi 'Ar y trywydd iawn', a bod dull drafft yn cael ei ddatblygu ar gyfer trafodaeth.

### Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

#### Briff ar gyfer yr holl gynghorwyr ar Fargen Dwf Gogledd Cymru

Mae gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan gynnwys Bargen Dwf Gogledd Cymru wedi'i gynnwys fel eitem ar restr wrth gefn cynllun gwaith i'r dyfodol Gweithdai'r Cyngor i'w ystyried ar ôl 2023. Dylai unrhyw adolygiad o'r rhestr wrth gefn ystyried cynnwys yr eitem hon fel y gellir rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r cynghorwyr am y gwaith hwn.

## Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Hwyluso a chefnogi prosiectau Bargen Dwf Gogledd Cymru mewn partneriaeth ag Uchelgais Gogledd Cymru | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Mae'r materion a wynebwyd yn cynnwys atal a newid cwmpas tri phrosiect a'r effaith gyffredinol ar chwyddiant costau. Mae cyfran o'r arian a ryddhawyd wedi sicrhau hyfywedd ariannol i ddatblygu prosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych. Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer y tri achos busnes amlinellol, yn cynnwys y Prosiect "Yr Ychydig % Olaf" i ddarparu band eang cyflym iawn mewn cymunedau sydd â chysylltiad gwael ar draws Gogledd Cymru. |
| Cydlynu ffrydiau ariannu rhaglen Trawsnewid Trefi LlC | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Stryd Fawr Corwen (Rownd 2Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu ceisiadau am arian ar gyfer rowndiau cyllid Ffyniant Bro a'r Fargen Dwf yn y dyfodol | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Adeiladau'r Frenhines, Y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Gwell | Cafwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Mehefin i ddyfarnu contract i'r cyflenwr a ffefrir yn dilyn proses gaffael. Gellir dechrau gwaith nawr i gytuno ar y contract, gorffen y gwaith ar Farchnad y Frenhines a sicrhau gwerthwyr. |
| Hen Ysbyty Gogledd Cymru | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Nes bydd y cytundeb adran 106 wedi'i sicrhau, mae'r prosiect yn parhau mewn perygl. Mae'r Grŵp Cyflawni Prosiect yn parhau i gwrdd er mwyn |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | | bwrw ymlaen â materion yn ymwneud â chynllunio a rheoli ecoleg. |
| Adeilad Fictoraidd Swyddfa'r Post (Y Rhyl) | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Llunio Strategaeth Economaidd newydd y Cyngor | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy'r AHNE a'i integreiddio i Gynlluniau Twristiaeth Lleol | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Cyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Sir Ddinbych 2022 - 2027 | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwerthuso effaith yr Ardoll Twristiaeth | Wedi dod i ben | Nid yw'r Ardoll Twristiaeth yn weithredol mewn gwirionedd. Rydym wedi cynnal yr ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022. Mae bellach yn mynd drwy broses a fydd yn golygu craffu ar amrywiol lefelau yn y Senedd ac o bosibl y daw'n gyfraith cyn i'r tymor gwleidyddol presennol ddod i ben. |
| Adleoli Canolfan Groeso'r Rhyl ac Amgueddfa'r Rhyl ar y cyd | Ar y cam achos busnes | Dim eithriad |
| Ceisio gwella edrychiad eiddo sydd mewn cyflwr gwael yng Nghanol Tref y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae oedi wedi bod gyda'r prosiect hwn, o ganlyniad i broblemau recriwtio. Mae swyddi dros dro newydd wedi'u cymeradwyo ac yn aros am gyllid. |
| Ailgysylltu pen uchaf Stryd Fawr y Rhyl â'r traeth (promenâd y Rhyl) | Mewn Perygl<br>Gwaeth | Mae'r gwaith cynllunio wedi'i ohirio ar hyn o bryd, gan nad oes mwy o gyllid |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | | ar gael i ddatblygu'r prosiect, yn dilyn cais aflwyddiannus yn Ail rownd Cronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd, a oedd yn cynnwys y prosiect hwn. |
| Gweithio gyda Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl i gyfrannu at lunio Strategaeth Parth Cyhoeddus y Rhyl | Profi Rhwystrau<br><br>Yr un fath | Bu'r cais i'r Gronfa Ffyniant Bro ar gyfer gwneud gwelliannau i Barth Cyhoeddus y Rhyl yn aflwyddiannus, felly mae rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal â Bwrdd Rhaglen Adfywio'r Rhyl i gytuno ar ffordd ymlaen. |
| Porth y Rhyl | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| Gweithio gyda chyflogwyr i nodi swyddi anodd recriwtio ar eu cyfer a datblygu llwybrau sector i lenwi'r bylchau | Wedi dechrau<br><br>Profi Rhwystrau | Nid oes llwybrau sector newydd wedi'u datblygu oherwydd swydd wag y Cydlynydd Hyfforddiant a'r cadarnhad hwyr am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3. Mae'r gwaith gyda chyflogwyr yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i gyflwyno llwybrau sector cyn gynted ag y bydd Cydlynydd Hyfforddiant wedi'i benodi, a fydd yn digwydd dros yr haf. |
| Codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hyfforddiant Cymraeg i oedolion sy'n gweithio yn y gymuned fusnes. | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Llunio adroddiad dichonoldeb ar gyfer llety symud ymlaen ym Mharc Busnes Llanelwy | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Datblygu Fframwaith Buddion Cymunedol i gyd-fynd â Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | Profi Rhwystrau<br><br>Gwaeth | Mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu canllawiau statudol a chymalau cymdeithasol. Nid yw wedi'i gwblhau eto. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Cronfa Ffyniant Bro – De Clwyd | Profi Rhwystrau | Ar y cyfan, mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran cyflawni prosiectau. Mae trafodaethau yn parhau â Llywodraeth y Du, er mwyn sicrhau y gellir cyflawni pob elfen o'r prosiect. |
| Cyflawni prosiect Cronfa Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Y Gronfa Ffyniant Gyffredin | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Ebrill, lluniodd y Cyngor ei restr fer derfynol o geisiadau am gyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sy'n rhan o raglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, ac mae gwerth £25.6 miliwn o gyllid ar gael ar gyfer prosiectau ar draws Sir Ddinbych. Aeth cymysgedd o 29 o brosiectau Sir Ddinbych yn unig a phrosiectau rhanbarthol ymlaen i gam nesaf y broses. Rhoddwyd gwybod i aelodau'r Cabinet am y prosesau sydd ynghlwm â llunio rhestr fer o brosiectau a chafodd y ceisiadau ar y rhestr fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin eu cymeradwyo. Dywedodd yr Aelodau fod amserlenni tynn ynghlwm â'r gronfa (nes mis Mawrth 2025) ac y bu'n hynod boblogaidd. Cafwyd 110 o geisiadau gyda chyfanswm o £88.7 miliwn. Rhoddwyd adborth i'r prosiectau na chymeradwywyd a chawsant eu cyfeirio at gymorth pellach. Galwyd penderfyniad y Cabinet i mewn gan bum Cynghorydd, gan arwain at adolygu'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer llunio rhestr fer o geisiadau ym mis Mai. Yn sail i'r adolygiad roedd diffyg dealltwriaeth a thystiolaeth o sut y cafodd prosiectau eu cymeradwyo. Trafodwyd y mater gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a daeth yr Aelodau i'r casgliad bod y Pwyllgor Craffu wedi cadarnhau penderfyniad y Cabinet i lunio rhestr fer. Canlyniad Adolygiad y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a rannwyd gyda'r Cabinet, oedd y bu prosesau'n gadarn a phroffesiynol. Fodd bynnag, cafodd argymhellion eu gwneud i wella'r broses o rannu gwybodaeth ynghylch trefniadau cyllido a chryfhau cyfathrebu â'r holl aelodau etholedig.

Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Mai, cyflwynwyd adroddiad i'r Aelodau yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyflawni prosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro ac roeddent yn fodlon bod strwythur cadarn ar waith.

Cynhaliwyd ail ddigwyddiad blynyddol Gwobrau Busnes y Rhyl gan Grŵp Ardal Gwella'r Rhyl ym mis Ebrill, ac roedd mwy na 150 o bobl yn bresennol. Bu i dros 5,000 o bobl, yn cynnwys cwsmeriaid a'r cyhoedd, fwrw mwy na 17,000 o bleidleisiau yn ystod Mis Mawrth Menter Sir Ddinbych, i gefnogi eu hoff fusnesau yn y Rhyl.

Pwysleisiodd y Cyngor fod y Rhyl ar agor am fusnes y gwanwyn a'r haf hwn, er rhywfaint o amhariad tymor byr fel rhan o fuddsoddiad £65 miliwn i adfywio'r Rhyl. Crëwyd llwybrau mynediad amgen ym mis Ebrill gan y bu'n rhaid cau rhannau penodol o'r promenâd fel rhan o wneud gwelliannau a'r cynllun amddiffyn yr arfordir. Mae llawer o brosiectau wedi'u cwblhau bellach, gan gynnwys harbwr newydd, Parc Dŵr SC2, Theatr y Pafiliwn a Bwyty 1891.

Ym mis Mai, gwahoddwyd perchnogion a lesddeiliaid adeiladau manwerthu a masnachol cymwys yng Nghanol Tref y Rhyl gan y Cyngor, i wneud cais am gyllid i wella tu blaen eu heiddo. Mae'r Grant Datblygu Eiddo yn gynllun rhanbarthol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, o fewn y Rhaglen Trawsnewid Trefi. Mae grantiau o £5000 a £50,000 ar gael gyda gofyniad arian cyfatebol o 30%.

Cynhaliwyd Wythnos Twristiaeth Cymru ym mis Mai, ac i ddathlu'r digwyddiad, lluniodd yr arlunydd David Goodman gyfres o bum map â llaw, yn amlygu tirweddau, amwynderau a chysylltiadau cludiant Sir Ddinbych. Ym mis Mehefin, cynhaliwyd digwyddiad gala deuddydd i gyhoeddi agoriad Gorsaf Reilffordd Corwen, a'r gobaith yw y bydd yn gwella twristiaeth yn yr ardal.

Mae Cynllun Llysgenhadon Cymru, a lansiwyd gyntaf yn Sir Ddinbych, yn gwrs ar-lein rhad ac am ddim sydd wedi ennill gwobrau, a gynlluniwyd ar gyfer gwella gwybodaeth pobl am Gymru. Dyfarnwyd dros 5,500 o dystysgrifau i'r unigolion sydd wedi cwblhau'r modiwlau ar amrywiaeth o themâu, gan gynnwys staff sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth.

Ym mis Mai, rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ynghylch y cynnydd o ran prosiectau arwyddion cyfeiriad brown i dwristiaid yn Sir Ddinbych. Mae'r Cynllun Arwyddion Twristiaeth Drafft - y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth - yn gam gweithredu o fewn Strategaeth Twristiaeth y Cyngor.

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion a gofynnodd bod adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno ymhen chwe mis.

Ym mis Mehefin, cynhaliwyd Ffair Swyddi Sir Ddinbych yn Gweithio y Cyngor yn Neuadd y Farchnad, Rhuthun. Llwyddodd dros 50 o fynychwyr i gysylltu ag ystod o gyflogwyr, a oedd yn arddangos cyfleoedd gwaith o fewn y Sir.

Yn ddiweddar, ymwelodd Alison McGovern, Gweinidog Cyflogaeth yr Wrthblaid â thîm Sir Ddinbych yn Gweithio y Cyngor. Mae'r cynllun wedi helpu dros 440 o bobl i ddod o hyd i gyflogaeth, a 422 o bobl eraill i ennill cymwysterau, tystysgrifau cysylltiedig â gwaith neu eu helpu i addysg llawn amser.

Mewn cyfarfod ym mis Mehefin, cymeradwyodd y Cabinet benodi gweithredwr ar gyfer Marchnad y Frenhines yn y Rhyl, a bydd y Cyngor nawr yn gweithio gyda nhw i orffen y gwaith ar Farchnad y Frenhines a chytuno ar strategaeth ac amserlen ar gyfer agor i'r cyhoedd. Dyfarnwyd y contract i'r gweithredwr newydd, Mikhail Hotel & Leisure Group, yn dilyn proses dendro drwyadl. Bydd y datblygiad yn darparu neuadd farchnad gymysg, a fydd yn cynnwys casgliad o leoedd bwyta artisan a gofod ar gyfer manwerthu a digwyddiadau.

## Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Bu i ni adrodd yn flaenorol ein bod yn bwriadu datblygu'r fframwaith o linynnau mesur i gefnogi'r thema hon. Mae rhai newidiadau wedi'u gwneud, er bod angen gwneud rhywfaint o waith eto i sicrhau y gallwn gasglu'r data sydd ei angen er mwyn llywio perfformiad yn y maes hwn yn gywir.

Nid ydym wedi pennu ein trothwyon perfformiad ar gyfer rhai llinynnau mesur eto, a byddwn yn casglu data ar gyfer rhywfaint o'r rhain yn ystod 'blwyddyn sylfaen' cyn pennu lefelau uchelgais neu bwyntiau ymyrraeth. Un o'r rhain yw nifer y pecynnau gofal a chefnogaeth a fu'n ddigonol ar gyfer gofal unigol (sydd wedi'u cynllunio i leihau nifer y gofalwyr sydd eu hangen i ddiwallu anghenion codi a symud unigolion yn gorfforol), gyda'r math cywir o gyfarpar arbenigol. O edrych ar gofnodion ein Storfa Cyfarpar Cymunedol, gallwn adrodd bod 48 o unigolion wedi derbyn cyfarpar arbenigol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, er mwyn galluogi gofal unigol. Fodd bynnag, o bosibl bod pecynnau gofal ar gyfer rhai o'r unigolion hyn yn dal i gael eu newid neu eu hadolygu. Er mwyn gwella cywirdeb ein hadroddiadau, o fis Gorffennaf, byddwn yn ceisio cadarnhad gan ein tîm Cyllid bod taliadau am ofal hefyd yn adlewyrchu gofal unigol.

Mae diweddariadau i linynnau mesur blynyddol yn cynnwys canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant a chanran y cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol. Cynhaliwyd 95% o gynadleddau amddiffyn plant, sy'n cael ei ystyried yn berfformiad 'Da'. Mae'r ffigyrau ar gyfer canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn o fewn yr amserlenni statudol yn is na'r trothwyon derbyniol ac maent wedi'u nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' ar 76.7%. Mae data ynghylch canran y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych sydd wedi profi tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn ar 31 Mawrth yn cael ei wirio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y data a gafodd ei gam-adrodd yn y diweddariad chwarterol diwethaf (mis Ionawr i fis Mawrth 2023) yn cael ei ddiweddaru pan fydd eglurhad ar gael. Mae'r diweddariad data cenedlaethol ar gyfer 2022-2023 hefyd yn yr arfaeth ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi yn hydref 2023.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn gallu monitro canran yr ysgolion sy'n sefydlu 'Dull Ysgol Gyfan' ar gyfer iechyd meddwl a lles a gallwn adrodd bod hyn wedi'i nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, ar 27%.

Nid ydym yn adrodd ar nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela yn Sir Ddinbych ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol mwyach. Yn hytrach, byddwn yn canolbwyntio ar nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela yn ysgolion Sir Ddinbych ac yn monitro gwelliant cyfartalog sgôr craidd y bobl ifanc hynny. Nodwyd gwelliant cyfartalog o 8.5 ar gyfer 2022-2023, ac fe ystyrir hyn fel perfformiad 'Rhagorol'.

Nid ydym bellach yn monitro llinyn mesur canran y bobl ifanc (rhwng 11-25 oed) sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd gweithgareddau i ieuenctid a ddarperir ac a gefnogir gan y Gwasanaeth Ieuenctid o fewn y thema hon. Yn hytrach, caiff canran bobl ifanc yn Sir Ddinbych sydd wedi'u cefnogi gan y Gwasanaethau Ieuenctid ei fonitro yn fframwaith y llinynnau mesur ar gyfer y thema [Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu].

Cafodd 70 o bobl ifanc eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn Sir Ddinbych rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Ein huchelgais yw gweld gostyngiad o 50% bob blwyddyn i ffigwr y flwyddyn flaenorol. Mae'r Prosiect Turnaround sy'n cefnogi hyn yn cynnig ymyrraeth a chymorth cynnar iawn i bobl ifanc i'w dargyfeirio o'r system. Mae meini prawf penodol ynghlwm â chymhwysedd, ond dros y ddwy flynedd nesaf, os bydd hyn yn llwyddiannus, o bosib y caiff y meini prawf ei newid ac y bydd hyd yn oed yn fwy hygyrch. Yn ei dro, bydd hyn yn cefnogi lleihad yn y niferoedd sy'n cael eu cyfeirio at Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, datrysiadau statudol ac atal. Byddwn yn gosod trothwyon perfformiad o fis Ebrill 2024 ymlaen.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi tai a digartrefedd, gweler ein themâu [Tai] a [Sir Ddinbych ffyniannus] yn y drefn honno. I gael gwybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb ac amddifadedd, ac amgylcheddau diogel, gweler ein thema [Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal]. Yn olaf, am ragor o fanylion ynglŷn â'n gwaith i gefnogi addysg a lles, gweler ein thema [Sir Ddinbych sy'n Dysgu a Thyfu] .

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr ymholiadau diogelu gan oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith i dderbyn adroddiad am gamdriniaeth honedig - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 98.7% Rhagorol | 98.85% Rhagorol Gwell | 98.84% Rhagorol Gwaeth | 98.8% Rhagorol Gwaeth | 100% Rhagorol Gwell |
| Canran yr ysgolion yn y sir sy'n defnyddio Dull Ysgol Gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 27% Blaenoriaeth i Wella |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata |
| Cyfanswm nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr sy'n oedolion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn - **Cyfrif yn Unig** | 97 | 197 | 303 | 401 | 92 |
| Nifer y pecynnau gofal a chefnogaeth a fu'n ddigonol ar gyfer gofal unigol gyda'r math cywir o gyfarpar arbenigol – **Blwyddyn Sylfaen** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 48 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr entrepreneuriaid posibl a dderbyniodd gymorth i fod yn barod am fusnes ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth dinasyddion – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 20 | 22 |
| Nifer y cysylltiadau Un Pwynt Mynediad ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth – **Cyfrif yn Unig** | 3,762 | 4,988 | 4,586 | 5,134 | 5,307 |
| Nifer yr atgyfeiriadau/ ymholiadau a gofnodwyd ar y Porth Cefnogi Plant a Theuluoedd - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 4,350 |
| Canran y bobl ifanc a gafodd ddewis y cynnig gweithredol o eiriolaeth gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata |
| Nifer y cysylltiadau Pwyntiau Siarad ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth (llyfrgelloedd, Siopau Un Alwad, ac a gynhelir gan Lyw-wyr Cymunedol ac ati) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 231 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y dinasyddion sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth gan Bwyntiau Siarad nad oedd angen cael eu hatgyfeirio at Ofal Cymdeithasol i Oedolion -**Blwyddyn Sylfaen** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 87.5% |
| Nifer y prosiectau / grwpiau chwaraeon a hamdden a gefnogir gan y Tîm Gwydnwch Cymunedol – **Blwyddyn Sylfaen** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 42 |
| Nifer y bobl ifanc o Sir Ddinbych a gafodd eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ystod y flwyddyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 70 |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 76.59% Blaenoriaeth i Wella | 76.7% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych (ar 31 Mawrth) – **Cyfrif yn Unig** | Aros am ddata cenedlaethol | Aros am ddata cenedlaethol |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych (ar 31 Mawrth) sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Aros am ddata cenedlaethol | Aros am ddata cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| Canran y cynadleddau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni statudol - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 90.63%<br>Blaenoriaeth i Wella | 95%<br>Da<br>Gwell |
| Nifer yr ysgolion sydd wedi cyflawni statws Ysgol sy'n Deall Trawma erbyn 2027 -**wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 1<br>Rhagorol |
| Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan ofalwyr sy'n oedolion trwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn, lle rhoddwyd cyngor neu gymorth - **Cyfrif yn Unig** | 1,037 | 1,159 |
| Nifer y bobl ifanc sydd wedi derbyn gwasanaeth cwnsela yn ysgolion Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 330<br>Derbyniol | 338<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Y gwelliant cyfartalog yn sgôr craidd pobl ifanc ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela yn ysgolion Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 8.5<br>Rhagorol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno y gallant fyw yn ddiogel, hapus ac annibynnol yn Sir Ddinbych, yn ogystal â derbyn cefnogaeth dda pan fo angen i hybu gwydnwch a lles - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 47.44%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran yr unigolion lle darparwyd eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar ôl asesu'r angen – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 72.5%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Nifer y prosiectau a gefnogwyd gan y Tîm Datblygu Cymunedol ac a ariannwyd, gan gynnig effaith gadarnhaol ar gyfer unigrwydd ac arwahanrwydd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| Nifer y Grwpiau Cymunedol yn y Sir sy'n defnyddio cyfleusterau o fewn cwmpas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 137<br>Rhagorol | 134<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Nifer y cyfleusterau/lleoliadau amgen (y tu hwnt i'r cwmpas) a ddefnyddiwyd ar gyfer darparu gwasanaethau i breswylwyr CSDd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 107<br>Rhagorol | 96<br>Rhagorol<br>Gwaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer cronnus y busnesau meicro-ddarparwyr newydd a grëwyd ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth dinasyddion – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 30<br>Rhagorol |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Nid yw data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei gyhoeddi'n aml, bob pedair i bum mlynedd. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Iechyd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 17%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

O'r pump ar hugain o brosiectau a gweithgareddau sydd wedi'u rhestru o dan y thema hon, mae pedwar ar ddeg ohonynt 'Ar y trywydd iawn' ac mae tri ohonynt yn 'Profi Rhwystrau'. Mae un gweithgaredd i weithredu'r Ymyrraeth Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys bellach wedi'i gwblhau ac wedi'i sefydlu fel busnes craidd. Mae'r cam gweithredu ar gyfer "Cynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr ifanc di-dâl gymryd rhan mewn pecyn hwyliog Seibiannau Byr cenedlaethol tair blynedd (drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru)" hefyd wedi dod i ben.

Mae gweithgaredd i gynnal ein statws fel Sefydliad sy'n Deall Dementia 'Wedi Dod i Ben' ac ni fyddwn yn adrodd arno mwyach. Mae hyn oherwydd penderfyniad Cymdeithas Alzheimer's i roi'r gorau i gynnig y statws o 2023 ymlaen. Mae'n debygol y bydd panel cydweithredol amlasiantaethol rhanbarthol a fydd yn ymgymryd â'r gwaith o ddyfarnu statws ar gyfer sefydliadau sy'n deall dementia, ond mae hyn yn dal yn cael ei ddatblygu ac ni fydd yn dechrau nes 2024-2025. Yn y cyfamser, byddwn yn canolbwyntio ar ein hymdrechion i sefydlu Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan (rhanbarthol) ac ar ddod yn

Sir Ddinbych oed-gyfeillgar. Mae'r ddau gweithgaredd wedi dechrau ac 'Ar y trywydd iawn'.

Fel yr adroddwyd yn ystod y cyfnod diwethaf, mae un prosiect, sef "Gweithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid", wedi cael ei ohirio gan Lywodraeth y DU ac mae'n annhebygol y bydd yn dechrau am beth amser. Ni fyddwn yn adrodd arno eto nes bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith gan Lywodraeth y DU. Mae dau brosiect arall nad ydynt wedi'u dechrau eto, ac mae un ohonynt ar y cam briff prosiect.

Mae'r ddau brosiect 'Mewn Perygl' arall sy'n weddill yn seiliedig ar raglenni sy'n cael eu cynnal gan y Ceidwaid Chwarae. Mae gostyngiadau mewn cyllid yn parhau i effeithio ar hyder o ran cyflawni'r prosiectau hyn, er ein bod yn parhau i edrych ar ddewisiadau ariannu allanol.

## Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a sicrhau bod staff yn cael eu paratoi'n effeithiol ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant er mwyn eu gweithredu. | Wedi'i ohirio | Deellir bod Llywodraeth y DU wedi gohirio eu gweithredu nes tymor y senedd nesaf. |
| Sefydlu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ym mhob agwedd o Wasanaethau Plant ac Oedolion. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithio gyda phartneriaid i gyflwyno'r cynllun strategol blynyddol ar y cyd ar gyfer Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Monitro a gweithredu gofynion Maethu Cymru a monitro effeithiolrwydd y dull cenedlaethol. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ymgorffori gwaith y Tîm Byw'n Annibynnol i gefnogi unigolion drwy daliadau uniongyrchol neu gardiau wedi'u rhagdalu, er mwyn gwella effeithlonrwydd | Profi Rhwystrau | Bydd staff sydd newydd gael eu recriwtio yn cynorthwyo â'r gweithgareddau o fis Gorffennaf 2023 ymlaen. Mae gwaith datblygu TGCh wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr 2024. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu gwaith ADY Ôl-16 | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o fis Gorffennaf 2023. |
| Datblygu gwyliau preswyl byr yn y sir a darpariaeth gofal brys i blant ag anghenion ac anableddau cymhleth yn Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Adolygu Seibiannau Preswyl yn y Sir | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| Gweithredu ac ymgorffori gofynion y Cod Ymarfer Awtistiaeth yn yr awdurdod lleol ar draws y Gwasanaethau Plant. | Profi Rhwystrau | Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu'r meini prawf cydymffurfio ar gyfer y Cod Ymarfer eto. |
| Gweithredu'r Ymyrraeth Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys er mwyn cydymffurfio â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (erbyn 2025) | Wedi'i gwblhau | Wedi'i weithredu fel busnes craidd. |
| Gweithio gyda gofalwyr di-dâl lleol i nodi'r cyfleoedd seibiant sydd eu hangen arnynt, a sut mae rhwystrau'n cael eu goresgyn i alluogi hyn. | Profi Rhwystrau | Cynigir cymorth i ofalwyr ddod o hyd i wasanaethau ataliol trwy recriwtio lleol. Mae Melin Drafod i Ofalwyr wedi'i sefydlu. |
| Cam 2 Bwthyn y Ddôl (Gweithgaredd) Datblygu a gweithredu, yn cynnwys staffio, Canolfan Asesu Plant newydd ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ysgol Tir Morfa - pwll hydrotherapi | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwella'r gwaith ymyrraeth ym Mhlas Brondyffryn a Thir Morfa o ran cyfleoedd chwarae gan Geidwaid Chwarae. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Cynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr ifanc di-dâl gymryd rhan mewn pecyn hwyliog Seibiannau Byr cenedlaethol tair blynedd (drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru). | Wedi'i orffen | Mae sefydliadau a gomisiynwyd i gefnogi gofalwyr ifanc yn Sir Ddinbych yn hwyluso seibiannau byr. Mae'r rhain yn seiliedig ar grant a chânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru nes 2025. |
| Gwaith i gynnal statws fel sefydliad sy'n Deall Dementia gyda Chymdeithas Alzheimer's (asesiad blynyddol). | Wedi'i orffen | Mae Cymdeithas Alzheimer's wedi cadarnhau na fyddant yn cynnig y statws hwn mwyach (o ddiwedd 2023) ac felly ni fyddwn yn darparu asesiadau blynyddol o dan y fenter hon o hyn ymlaen. Mae Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych a'r Grŵp Cyngor sy'n Deall Dementia wedi uno, a bydd gwaith yn parhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n byw gyda Dementia a'r sawl sy'n gofalu amdanynt. |
| Gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol i sefydlu Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Gwaith i ddatblygu ac ymestyn y prosiect Mynediad i Chwarae ledled y sir. | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae gostyngiad sylweddol mewn cyllid yn rhoi'r rhaglen hon mewn perygl. Mae rhagor o grantiau allanol yn cael eu harchwilio wrth i'r galw am y gwasanaeth barhau i gynyddu. |
| Ymestyn cynnig Ceidwaid Chwarae y Rhaglen Gadewch i Ni Chwarae Allan ledled y sir. | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae gostyngiad sylweddol mewn cyllid yn rhoi'r rhaglen hon mewn perygl. Mae rhagor o grantiau allanol yn cael eu harchwilio wrth i'r galw am y gwasanaeth barhau i gynyddu. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gwneud gwaith i leihau rhestr aros am gymorth gan y Gwasanaethau Ieuenctid yn Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwella'r Prosiect Story Pals a'r rhaglen Gelfyddydau i ddarparu gweithgareddau pontio'r cenedlaethau (darperir drwy Strategaeth Gelfyddydau Sir Ddinbych). | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cynnal adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Gweithio tuag at Sir Ddinbych Oed-gyfeillgar, gyda Sefydliad Iechyd y Byd, mewn partneriaeth â grŵp amlasiantaeth Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Darparu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i annog plant a phobl ifanc i ailgysylltu â'u llyfrgell leol, er mwyn cefnogi ymgysylltiad a lles ac i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Gwella'r Rhaglen Natur er Budd Iechyd yn Sir Ddinbych, sy'n cynnig amryw o fanteision – lleihau ynysigrwydd, gwella iechyd, sgiliau gwledig, teithiau cerdded natur ac iechyd, celf a chrefft. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Ebrill, cafodd Anne Roberts, Sir Ddinbych, ei henwebu yn 'Rheolwr Gwaith Cymdeithasol Rhagorol' fel rhan o ymgyrch Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain eleni i gydnabod a dathlu'r proffesiwn. Ym mis Mai, enillodd Sara Thelwell Wobr Arloesi Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Ar daith ymchwil i Wlad Belg, a ariannwyd trwy'r wobr, bu modd i Sara ddysgu mwy am y dull gofal gwely Troi Unwaith yn unig, sydd â'r potensial i leihau'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â dementia dwys yn sylweddol.

Mynychodd dros 285 o bobl ddigwyddiad rhannu gwybodaeth Canolbwyntio ar y Teulu yn Neuadd y Dref, y Rhyl ym mis Ebrill. Cafodd ei gynnal gan dimau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, a darparodd dros 30 o stondinau gyngor i deuluoedd ar amrywiaeth o bynciau.

Ym mis Mai, cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad galw heibio lles yn y Rhyl, lle roedd diod gynnes ar gael i bobl a chyfle i ddysgu am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn Sir Ddinbych. Mynychodd ugain o wahanol sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau a oedd yn cynnig cyngor ar iechyd, cyllid, cyflogaeth a digartrefedd.

Yn ystod yr Wythnos Gweithredu dros Ddementia, cynhaliodd y Cyngor Foreau Coffi yn Ninbych a Llangollen. Diben y digwyddiadau oedd tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael, ac roedd y rhai a gynhaliwyd ym mis Mai yn rhan o ymgyrch ymwybyddiaeth flynyddol Cymdeithas Alzheimer's.

Cyhoeddodd Pwyntiau Siarad Sir Ddinbych fod ei wasanaeth ar gael ar gyfer cefnogi lles mewn llyfrgelloedd gwahanol ledled y sir trwy gydol yr wythnos. Cynhigir gwybodaeth, cyngor a chymorth gan Lyw-wyr Cymunedol sy'n gweithio â nifer o wasanaethau cymorth allweddol i helpu preswylwyr. Sylwch nad ydym yn cynnal Pwyntiau Siarad ar ddydd Iau ac mae'r Pwynt Siarad ar ddydd Iau yn y Rhuddlan wedi'i newid i ddydd Gwener.

Ym mis Mehefin, sefydlodd Pwyntiau Siarad bartneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru, gan roi mynediad i ofalwyr at gymorth, yn ogystal â thaith ar feic digidol. Yn ystod Wythnos Gofalwyr, cafodd y beic ei arddangos gan rai o lyfrgelloedd Sir Ddinbych, sy'n cael ei ystyried o fudd i breswylwyr cartrefi gofal, gan ganiatáu iddynt fynd yn ôl mewn amser a beicio'n rhithiol trwy'r strydoedd y cawsant eu magu.

Mae'r Cyngor wedi bod yn cefnogi preswylwyr i sefydlu eu gwasanaeth meicro–ddarparwyr eu hunain yn lleol, gan gefnogi pobl hŷn a phobl anabl yn eu cartrefi eu hunain. Mae mwy na 30 o fusnesau yn darparu oddeutu 520 awr o ofal yn Sir Ddinbych i dros 140 o breswylwyr bob wythnos.

Ym mis Mai, derbyniodd y Cyngor Sir gynnig mewn perthynas â deiseb 'Alex Angels' ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb i adfer capasiti gwelyau yn Ysbyty Brehinol Alexander, y Rhyl. Cafodd y newidiadau arfaethedig gan yr aelod arweiniol, y Cynghorydd Elen Heaton, eu cymeradwyo, gan gynnwys y dylai'r cynghorwyr addo eu cefnogaeth ar gyfer ailddatblygu ysbyty Brenhinol Alexander yn gyfan gwbl (sef Prosiect Ysbyty Cymunedol

Gogledd Sir Ddinbych). Mae'r prosiect yn aros am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru cyn y gellir symud ymlaen.

Cafwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Mehefin i Gyngor Sir Ddinbych weithredu fel Corff Arweiniol ar ran y chwe phartner awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru wrth ymdrin â'r Gwahoddiad i Dendro ar gyfer adnewyddu Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae'r fframwaith perfformiad hwn wedi'i rannu'n fras yn dri maes ffocws ar gyfer y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol - sef cefnogi Datblygiad yn y Blynyddoedd Cynnar; Ymrwymiad a Chyflawniad yn yr Ysgol a Chefnogaeth Cyflogadwyedd. Nid yw rhai llinynnau mesur i gefnogi'r thema hon wedi cael eu pennu eto, megis llinynnau mesur cyrhaeddiad. Mae'r thema hon yn cynnwys nifer o linynnau mesur blynyddol, ac nid yw rhai ohonynt wedi'u cyhoeddi eto. Ceir dadansoddiad o linynnau mesur sydd eisoes ar gael yn ein hadroddiad diweddaru hunanasesu perfformiad mis Ionawr i fis Mawrth 2023-2024.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae presenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau'n bryder yn sgil pandemig Covid-19, yn ogystal â chanran y Disgyblion sy'n Gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg Gwaith neu Hyfforddiant (NEET) a chanran y disgyblion blwyddyn 11 nad oes ganddynt lwybr ôl-16 penodol yn ei le. Caiff hyn ei fonitro'n agos a bydd data newydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Mae nifer yr ysgolion sydd dan adolygiad Estyn, sydd angen Gwelliant Sylweddol neu mewn Mesurau Arbennig wedi gostwng o 3 i 2 ac mae bellach yn y categori 'Da'. Mae canran y disgyblion (gan ddefnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS) sy'n ymateb yn gadarnhaol o ran eu teimladau am yr ysgol wedi cynyddu i 82% yn yr arolwg mwyaf diweddar ac mae perfformiad yn cael ei ystyried yn 'Dda'.

Mae cwblhau Cynlluniau Llwybr Gadael Gofal o fewn amserlenni statudol yn parhau i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella' ar 71% yn ystod 2022-2023, er bod hyn yn welliant amlwg ar berfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (20%).

Mae llinyn mesur wedi'i ddechrau'r chwarter hwn ar nifer y cyfleoedd cyflogaeth a sicrhawyd a'r swyddi a ddiogelwyd trwy ein Polisi Buddion Cymunedol ar brosiectau dros £1 miliwn. Ni chafodd unrhyw gyfleoedd na swyddi eu sicrhau na'u diogelu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, ac nid yw hyn yn destun pryder eto. Dros gyfnod ein Cynllun Corfforaethol diwethaf, cafodd 22 o swyddi eu creu trwy waith yr Hwb Buddion

Cymunedol. Ein nod yw sicrhau neu ddiogelu un swydd cyfwerth â llawn amser ar gyfer pob prosiect, a chynnig un lle hyfforddiant tymor byr er budd preswylwyr Sir Ddinbych. Byddwn hefyd yn ceisio mesur buddion cadwyn gyflenwi yn fanylach yn ein hadroddiadau, yn unol â deddfwriaeth Cymru a'r DU sydd i ddod. Erbyn diwedd y Cynllun Corfforaethol presennol, rydym yn gobeithio creu neu ddiogelu 40 o gontractau swyddi drwy adrodd ar y gadwyn gyflenwi a bydd 20 o leoliadau profiad gwaith yn cael eu sicrhau ar gyfer cleientiaid Sir Ddinbych yn gweithio bob blwyddyn. Mae angen adlewyrchu'r uchelgais hwn yn y trothwyon newydd, y mae angen cytuno arnynt.

Mae canran y busnesau a dderbyniodd gontractau o dros £1 miliwn sydd wedi ymrwymo i weithio â Gyrfa Cymru er budd ein hysgolion a cholegau lleol (trwy ein Polisi Buddion Cymunedol) yn ystod y cyfnod hwn yn sero, ar y sail nad oedd unrhyw gontractau perthnasol h.y. nid oes yr un ohonynt dros £1 miliwn.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cywiriad i ganran y bobl ifanc yn Sir Ddinbych a gefnogwyd gan y Gwasanaethau Ieuenctid (Cronnus), a gafodd ei gam-adrodd fel 23.6% rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2022. Mae'r tabl isod yn cynnwys data cywir, ac mae perfformiad yn cael ei ystyried fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd wedi cael canlyniad cadarnhaol o ganlyniad i gefnogaeth a ddarparwyd trwy wasanaethau Cyfleoedd Gwaith y Cyngor (Y Bont, Popty, Meifod, Rheoli Gerddi a'r Grŵp Aur) wedi cynyddu o 34 yn y cyfnod diwethaf i 43 rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Rydym yn gobeithio datblygu dull ar gyfer asesu a gwerthuso canlyniadau lles yn sgil cefnogaeth.

Rydym wedi bod yn gweithio'n fewnol i sefydlu'r ffynhonnell ar gyfer nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sy'n cael eu cynnig gan y Cyngor trwy ei wefan gorfforaethol. Rydym wedi dod i'r casgliad mai'r llinyn mesur gorau i ni ei ddefnyddio yw llinyn mesur sampl, sy'n rhoi syniad i ni o ba mor dda y mae pethau'n gweithio, o gofio ei bod hi'n amhosibl mesur yr holl gyfleoedd gwirfoddoli sy'n cael eu cynnig ar draws y Cyngor. Nes y bydd llinynnau mesur mwy addas ar gael, rydym yn defnyddio nifer yr ymholiadau am gyfleoedd gwirfoddoli Ar Ymyl Gofal, trwy ffurflen ymholiadau ar-lein. Lansiwyd y ffurflen ym mis Ionawr 2023.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi lles, gweler ein thema Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus; ar gyfer tegwch mewn addysg, gan gynnwys cymorth prydau ysgol am ddim, gweler ein thema am Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal. Yn olaf, am ragor o fanylion ynglŷn â'n gwaith i gefnogi gwirfoddoli a chyflogaeth,

gweler ein themâu Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well a Sir Ddinbych ffyniannus yn y drefn honno.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 732 Rhagorol Gwell | 477 Derbyniol Gwaeth | 521 Derbyniol Gwell | 570 Derbyniol Gwell | 570 Derbyniol Yr un fath |
| Nifer y rhieni a gefnogwyd trwy waith y Gwasanaeth Cyswllt Teulu sy'n adrodd am wahaniaeth cadarnhaol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 95% Rhagorol | 96% Rhagorol Gwell |
| Nifer yr ysgolion sydd naill ai dan Adolygiad Estyn, angen Gwelliant Sylweddol neu mewn Mesurau Arbennig – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2 Da Gwaeth | 2 Da Yr un fath | 3 Derbyniol Gwaeth | 3 Derbyniol Yr un fath | 2 Da Gwell |
| Canran y disgyblion (yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS) sy'n ymateb yn gadarnhaol o ran eu teimladau am yr ysgol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Dim Arolwg | Dim data. Dim Arolwg | 81.8% Da Gwaeth | Dim data. Dim Arolwg | 82% Da Gwell |
| Nifer y lleoliadau gwirfoddol / profiad gwaith a gynhigiwyd trwy 'Llwybrau' – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Aros am ddata. Disgwylir ym mis Medi 2023 |
| Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a gynhigiwyd gan y Cyngor drwy ei wefan gorfforaethol – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 8 | 9 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl ifanc yn Sir Ddinbych a gefnogwyd gan y Gwasanaethau Ieuenctid (Cronnus) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 3.76% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 5.12% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 6.39% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 20.93% Derbyniol Gwell | 2.82% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol o ganlyniad i gefnogaeth a ddarparwyd drwy wasanaethau Cyfleoedd Gwaith y Cyngor (Y Bont, Popty, Meifod, Rheoli Gerddi a'r Grŵp Aur) – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 34 | 43 |
| Nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd mewn cyflogaeth gynaliadwy â thâl o ganlyniad i Wasanaeth Canfod Swyddi Cyfleoedd Gwaith y Cyngor –**Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 3 | 2 |
| Canran y busnesau a dderbyniodd gontractau o dros £1 miliwn sydd wedi ymrwymo i weithio â Gyrfa Cymru er budd ein hysgolion a cholegau lleol (trwy ein Polisi Buddion Cymunedol) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 100% Rhagorol | 0 |
| Nifer y cyfleoedd cyflogaeth a sicrhawyd/ swyddi a ddiogelwyd trwy ein Polisi Buddion Cymunedol ar brosiectau o dros £1 miliwn – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024. | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024. | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024. | 0 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl sydd, trwy Sir Ddinbych yn Gweithio, wedi cymryd camau cadarnhaol ar eu siwrnai tuag at neu i gyflogaeth – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 88% Rhagorol Gwell | 81% Da Gwaeth | 82% Da Gwell | 82% Da Yr un fath | 82% Da Yr un fath |

**Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod dysgu a hyfforddiant o ansawdd da ar gael yn Sir Ddinbych, gan ganiatáu i bobl o bob oed gyrraedd eu potensial personol a phroffesiynol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 47.79% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y plant sy'n mynd i'r feithrinfa sydd wedi derbyn proffil 'Me in a Nutshell' gan Weithwyr Cyswllt Teulu, er mwyn cefnogi pontio effeithiol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 81% Rhagorol | 82% Rhagorol Gwell |
| Canran y rhieni sydd wedi adrodd am effaith gadarnhaol mynychu Dechrau Da / Amser Rhigwm – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 99% Rhagorol |
| Canran y rhieni sy'n cymryd camau cadarnhaol gan fynychu digwyddiadau dysgu strwythuredig trwy Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 53% Derbyniol | 58% Da Gwell |
| *Llinyn(nau) mesur cyrhaeddiad i'w pennu* | *Dim data* | *Dim data* |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Covid-19 | 90.8% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth (na 2019) |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Covid-19 | 86% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth (na 2019) |

| **Teitl** | **2021 - 2022** | **2022 - 2023** |
|---|---|---|
| Canran y disgyblion sydd wedi ymgysylltu trwy 'Llwybrau' sy'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys cymwysterau lefel 1 neu lefel 2 – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 88%<br>Derbyniol |
| Nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C a D – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 27<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 27<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Canran yr ysgolion sy'n gallu cynnal gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | Aros am ddata. Ar gael yn yr hydref |
| Canran y Disgyblion sy'n Gadael Blwyddyn 11 mewn ysgolion, nad ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET), ar y 31 Awst blaenorol yn Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 1.7%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 2.3%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y disgyblion Blwyddyn 11 nad oes ganddynt lwybr ôl-16 penodol yn ei le – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4.14%<br>Blaenoriaeth i Wella | Aros am ddata. Ar gael ym mis Tachwedd |
| Canran y plant neu'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Addysg Personol ar waith – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 100%<br>Rhagorol | 96%<br>Da<br>Gwaeth |
| Canran y Cynlluniau Llwybr Gadael Gofal cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn o fewn yr amserlenni statudol, ble mae gan y person ifanc statws gadael gofal - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 20%<br>Blaenoriaeth i Wella | 71%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am 3 mis yn olynol yn y 13-24 mis ers gadael gofal - **Cyfrif yn Unig** | 5 | 7 |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Nid yw data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei gyhoeddi'n aml, bob pedair i bum mlynedd. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Addysg (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 9% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 9% Derbyniol Yr un fath |
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Cyflogaeth (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 12% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 12% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae yna un ar bymtheg o brosiectau a gweithgareddau o dan y thema hon. Mae saith ohonynt 'Ar y trywydd iawn' ac mae pump ohonynt yn 'Profi Rhwystrau'. Mae un wedi'i gwblhau: Gweithredu prosiect Platfform Digidol Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae prosiect newydd ar gyfer Rhaglen Strategol Sir Ddinbych yn Gweithio – Darparu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'i ychwanegu ac ar y cam briff prosiect ar hyn o bryd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae un prosiect 'Mewn Perygl' ar hyn o bryd. Mae oedi â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, yn bennaf oherwydd materion â chontractwyr a'r safle, fel y disgrifir mewn mwy o fanylder isod.

Mae prosiectau Ehangu Dechrau'n Deg ac Ailgomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf bellach 'Ar y trywydd iawn'. Bu recriwtio ar gyfer Gofal Plant a Datblygiad Iaith Cynnar yn llwyddiannus, a chafodd plant eu derbyn i leoliadau Dechrau'n Deg newydd ym mis Mehefin 2023.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu Platfform Digidol Cynnig Gofal Plant Cymru | Wedi'i gwblhau | |
| Ehangu Dechrau'n Deg | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Ailgomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf | Ar y trywydd iawn | |

| **Teitl** | **Statws** | **Eithriadau** |
|---|---|---|
| Cefnogi'r prosiect rhanbarthol ar y fframwaith Iechyd Emosiynol, Lles a Gwydnwch, a fydd yn darparu adnoddau i rieni | Profi Rhwystrau | Mater o ran capasiti – i'w drafod â'r prif reolwr addysg newydd pan fydd wedi dechrau yn ei swydd. |
| Adolygu'r ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yng nghyd-destun cyllid Trawsnewid Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Nid oes unrhyw gynnydd oherwydd y galw presennol a'r capasiti staff sydd ar gael i fwrw ymlaen â'r gwaith. |
| Creu swyddi newydd yn Nhimau Gofal Plant a Datblygiad Iaith Cynnar Dechrau'n Deg o fis Ionawr 2023, er mwyn cefnogi'r gwaith o ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Mewn partneriaeth â GwE, cefnogi ysgolion a lleoliadau nas cynhelir i gyflwyno'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu i fod yn oedolion galluog, uchelgeisiol, mentrus, moesegol, iach a hyderus. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gweithredu gofynion y Ddeddf Diwygio ADY o fewn y Gwasanaethau Plant ac Addysg er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cyflwyno Canllawiau Gwella Ysgol: Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Cefnogi ysgolion i ddatblygu cymhwysedd digidol trwy arweinyddiaeth addysgol y prosiect EdTech | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Rhaglen Moderneiddio Addysg | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Rhoddir ystyriaeth i addasrwydd safleoedd Plas Brondyffryn a Phentref (Ysgol Uwchradd Dinbych wedi'i oedi oherwydd y safle blaenorol). Mae cynigion ar gyfer Ysgol Bryn Collen / Ysgol y Gwernant wedi'u cyflwyno, aros am ateb gan Lywodraeth Cymru (LlC).<br>Mae cynnydd yn araf gyda gwaith ar Ganolfan y Dderwen ar ôl i'r contractwr fyd i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Chwefror. Mae'r tendr diwygiedig ar gyfer Twm o'r Nant dros y gyllideb a ragwelwyd unwaith eto, a chafodd trosglwyddiad ariannol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd (aros am benderfyniad).<br>Cafodd y gwaith yn Ysgol Dewi Sant ei oedi oherwydd problemau draeniau, ond mae'r prosiect wedi'i ailgyflwyno ar gyfer y rownd nesaf o gyllid. |
| Ysgolion Bro: Peilot Ysgol Uwchradd Prestatyn | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Ymgysylltu â Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod y sgiliau a'r hyfforddiant sydd ar gael trwy ein Polisi Buddion Cymunedol yn addas ar gyfer y dyfodol a / neu'n drosglwyddadwy. | Profi Rhwystrau | Bu peth oedi gan nad yw'r canllawiau statudol a'r cymalau cymdeithasol ar waith eto. Rydym yn gweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r canllawiau statudol a fydd yn llywio'r Offeryn Statudol ac yn cefnogi'r Ddeddf newydd. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Trwy ein Polisi Buddion Cymunedol, sicrhau gweithdai strategaeth dan arweiniad busnes er budd preswylwyr sy'n ceisio uwchsgilio | Profi Rhwystrau | Effeithir ar hyn hefyd gan ganllawiau statudol a chymalau cymdeithasol nad ydynt ar waith eto. |
| Datblygu systemau perfformiad a monitro ar gyfer y contract cefnogi Llety Brys Dros Dro wrth iddo ddatblygu, a fydd yn cynnwys sgiliau a buddion bywyd, hamdden a chyflogadwyedd amrywiol. | Profi Rhwystrau | Mae'r dangosfwrdd Ailgartrefu Cyflym wedi cymryd cryn amser i'w ddatblygu, ond mae bellach yn darparu data ystyrlon y gellir ei ddadansoddi. Mae grŵp prosiect newydd wedi'i sefydlu a bydd yn cyfarfod yn y chwarter nesaf. |
| Newydd: Rhaglen Strategol Sir Ddinbych yn Gweithio (Darparu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU) | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad Amser Hwyl i'r Teulu yn llwyddiannus gan Dimau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg Cyngor Sir Ddinbych ym mis Mai a mis Mehefin. Roedd y digwyddiadau yn canolbwyntio ar iechyd a lles plant, ac yn cyd-fynd ag Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Rhoddwyd cyfle i'r plant gymryd rhan mewn chwarae blêr, gweithgareddau synhwyraidd a chelf a chrefft a chawsant ginio iach yn rhad ac am ddim.

Mae sawl ardal newydd wedi'u hychwanegu at y Cynnig Gofal Plant Dechrau'n Deg yn Sir Ddinbych, gan olygu bod llawer mwy o deuluoedd yn gymwys i elwa o 12.5 awr yr wythnos o ofal plant wedi'i ariannu. Mae teuluoedd yn gallu cael gofal plant wedi'i ariannu o ddechrau'r tymor yn dilyn ail ben-blwydd eu plentyn, nes diwedd y tymor y byddant yn troi'n dair oed.

Gwnaeth Tîm Iechyd Meddwl Ar Ymyl Gofal Cyngor Sir Ddinbych apêl am wirfoddolwyr i ymuno â nhw ar gyfer cefnogi iechyd meddwl a lles eraill yn ne'r sir. Er enghraifft, mynd am dro, cael sgwrs dros y ffôn neu trwy fynychu grwpiau gyda'i gilydd. Nid oes rhaid i wirfoddolwyr fod yn weithwyr proffesiynol cymwys, dim ond eu bod yn unigolyn gofalgar sydd eisiau cefnogi eraill, boed ganddynt brofiad o hynny neu beidio. Mae pecyn

hyfforddiant ar gael a chefnogir yr holl wirfoddolwyr; bydd gwirfoddolwyr yn cael eu paru yn ôl eu diddordebau a'u hobïau, â'r unigolion y byddant yn eu cefnogi, lle bo modd.

Yn dilyn cymryd rhan yng ngweithdai risg a sicrwydd Estyn yn ddiweddar, derbyniwyd llythyr gan yr awdurdod yn nodi canlyniadau'r gweithdy a'r gwaith a wnaed gydag Estyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

O fewn y thema hon, mae nifer o linynnau mesur wedi'u meincnodi'n genedlaethol sy'n rhoi syniad o berfformiad o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Gallwn bellach adrodd ar ein data cyflwr ffyrdd 2022-2023 ar gyfer ffyrdd dosbarth A, B a C. Mae cyflwr prif ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol wedi gwella o 2.6% yn 2021-2022, i 2.2% (5.906 km o ffyrdd dosbarth A) yn 2022-2023 ac yn parhau yn y categori 'Rhagorol'. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i ni weld gwelliant, a hynny o 3.63% ers 2019-2020. Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i gadw'r cyflwr eleni, gyda rhaglen Gwella Arwynebau Ffyrdd sylweddol, a gwblhawyd yn ddiweddar a ddylai sicrhau bod unrhyw ddirywiad yn cael ei atal.

Yn yr un modd, mae cyflwr ffyrdd llai, dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol wedi gwella o 3.8% yn 2021-2022, i 3.5% (9.356 km o ffyrdd dosbarth B) yn 2022-2023 ac yn parhau yn y categori 'Rhagorol'. Unwaith eto, dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i ni weld gwelliant, a hynny o 5.29% ers 2019-2020. Eleni, byddwn yn mynd i'r afael â rhannau o'r B5429 (ffordd dosbarth B hiraf y sir), felly dylai hyn hefyd sicrhau rhagor o welliannau.

Fodd bynnag, gwelwyd dirywiad sylweddol yng nghanran y ffyrdd llai, dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol o 7.5% yn 2021-2022, i 16.4% yn 2022-2023. Mae hyn yn cyfateb i 148.549 km o ffyrdd dosbarth C ac fe'i ystyrir fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Ar ôl chwe blynedd o welliant, dyma'r dirywiad cyntaf i ni ei weld yn ein data ar gyfer ffyrdd llai, dosbarth C. Mae'r contract ar gyfer pennu cyflwr ffyrdd yn cael ei reoli'n allanol ac mae'n ofynnol i 50% o ffyrdd dosbarth C gael eu harolygu ar hap. Gan fod 521 cilometr o ffordd yn y dosbarth hwn, ymddengys y bu i ni fod braidd yn anlwcus o ran yr ardaloedd a gafodd eu dewis ganddynt i'w harolygu, ond mae o gymorth i brofi bod angen gwneud rhagor o waith.

Cafodd y prosiect ar gyfer Llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy, yn cynnwys teithio llesol, ei nodi yn ein Cynllun Corfforaethol diwethaf. Mae heriau ynghlwm ac er bod yna fesurau yn ymwneud â lleihau allyriadau carbon a gosod mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydan

cyhoeddus i gefnogi ein thema Sir Ddinbych mwy Gwyrdd, rydym yn datblygu llinynnau mesur ar gyfer y meysydd blaenoriaeth eraill yn y Cynllun Cludiant Cynaliadwy ar hyn o bryd, a fydd yn cael eu hychwanegu at fframwaith rheoli perfformiad y thema hon maes o law.

Mae'r thema hon hefyd yn cynnwys llinynnau mesur sy'n ymwneud â lles personol a chymunedol. Mae ein Tîm Gwydnwch Cymunedol wedi gweld cynnydd graddol yn nifer y prosiectau neu grwpiau a gefnogir, o 33 ar yr un cyfnod y llynedd i 78. Mae gwaith ar y gweill hefyd i gynnwys mwy o'n tenantiaid mewn prosiectau cymunedol.

Mae data chwarterol bellach wedi'i gynnwys ar gyfer canran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn yr amser targed. Er bod hyn wedi gwella o 18% ar yr un cyfnod y llynedd i 29% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, mae'n parhau fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Mae'n parhau'n faes pryder i'r gwasanaeth ac rydym yn gweithio'n galed i wella'r materion. Rydym wedi aildrefnu rhywfaint ar ein tîm, er mwyn helpu rheoli'r llwyth gwaith yn well ac mae hyn yn dechrau talu. O ganol mis Medi ymlaen, dim ond cyfanswm o 84 o ddiffygion categori 1 sydd angen eu hatgyweirio, ac mewn gwirionedd mae 13 o'r rheiny o fewn yr amserlen ofynnol.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi lles, gweler ein thema Sir Ddinbych Iachach, Hapusach a Gofalus; am weithgarwch ysgolion bro a datblygu cymhwysedd digidol, gweler ein thema Sir Ddinbych sy'n Dysgu a Thyfu.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ar gyfartaledd, canran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn yr amser targed yn y flwyddyn hyd yma (CAT1 - diffygion Categori 1 a gafodd eu trin o fewn yr amserlen) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 18% Blaenoriaeth i Wella | 18% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 16% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 16% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 29% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Nifer y projectau neu grwpiau a gefnogwyd | 33 | 55 | 53 | 61 | 78 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| gan y Tîm Gwydnwch Cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Derbyniol Gwell | Da Gwell | Da Gwaeth | Rhagorol Gwell | Rhagorol Gwell |
| Nifer y tenantiaid sy'n cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol –**Cyfrif yn Unig** | 0 | 6 | 6 | 6 | 6 |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod gan Sir Ddinbych isadeiledd cludiant a ffyrdd i gefnogi cymunedau ffyniannus, cydlynol, sydd wedi cysylltu'n dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 29.46% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n credu bod gan Sir Ddinbych seilwaith digidol (megis cysylltedd band eang da, signal ffôn symudol neu ryngrwyd symudol da) i gefnogi cymunedau ffyniannus, cydlynol, sydd wedi cysylltu'n dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 48.96% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n credu bod gan Sir Ddinbych yr isadeiledd cymdeithasol sydd ei angen i gefnogi lles personol a chymunedol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 55.70% Derbyniol |
| *Llinynnau Mesur y Cynllun Cludiant Cynaliadwy i'w pennu* | *Dim data* | *Dim data* |
| Canran y prif ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 2.6% Rhagorol Gwell | 2.2% Rhagorol Gwell |
| Canran y ffyrdd llai/ dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 3.8% Rhagorol Gwell | 3.5% Rhagorol Gwell |
| Canran y ffyrdd llai/ dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 7.5% Rhagorol Gwell | 16.4% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Canran yr eiddo sy'n derbyn llai na 30Mbps - **Cyfrif yn Unig** | Dim data | 4.57% |
| Canran yr eiddo sy'n derbyn llai na 10Mbps - **Cyfrif yn Unig** | Dim data | 2.88% |
| Canran y defnyddwyr llyfrgell sy'n dweud bod defnyddio'r llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau digidol a'u hyder - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 65% Da |
| Canran y bobl a wnaeth fenthyg dyfais ddigidol o lyfrgell a ddywedodd ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau digidol a'u hyder - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| *Llinynnau Mesur Teleofal Digidol i'w pennu* | *Dim data* | *Dim data* |
| Nifer y prosiectau cymunedol a grëwyd ar y cyd â'r gymuned a'r trydydd sector - **Cyfrif yn Unig** | 7 | 7 |
| Nifer yr oriau gwirfoddol yn cefnogi gweithgarwch datblygu a gwydnwch cymunedol - **Cyfrif yn Unig** | Dim data | 700 (amcangyfrif) |
| Nifer y cysylltiadau a ddarparwyd trwy wasanaeth gwirfoddol Ar Ymyl Gofal y Cyngor - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 795 |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Nid yw data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei gyhoeddi'n aml, bob pedair i bum mlynedd. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema.

| **Teitl** | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad at Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 14% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

### Prosiectau neu Weithgareddau

Mae'r thema hon yn cynnwys 19 o brosiectau a gweithgareddau. Mae deg ohonynt 'Ar y trywydd iawn', pedwar yn 'Profi Rhwystrau', pedwar wrthi'n cael eu datblygu ac un wedi'i gwblhau. Mae'r prosiect "Llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy (yn cynnwys Teithio Llesol)" ar y cam achos busnes. Bydd angen rheoli'r gwaith hwn yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n gyflym.

Mae'r gweithgaredd "Darparu Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl)", sy'n datblygu blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn fframwaith y polisi cenedlaethol, wedi'i ddileu o fframwaith rheoli perfformiad y thema hon, gan ei fod yn ailadrodd prosiect y Cynllun Datblygu Lleol o dan ein thema Tai.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid i ddarparu'r dewis mwyaf hyfyw ar gyfer ailosod Pont Llannerch. Maent eisoes yn ein cefnogi â chyllid ar gyfer y broses o lunio cynllun manwl, sy'n digwydd ar hyn o bryd.

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu rhaglen flynyddol ar gyfer rhoi wyneb newydd ar nifer o ffyrdd ar draws y sir sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Gweithredu rhaglen Gwella Arwynebau Ffyrdd flynyddol ar gyfer nifer o ffyrdd blaenoriaeth uchel, lle bo hyn yn cynrychioli'r dull mwyaf cost effeithlon o ymestyn oes y ffordd. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Anelu i gyflawni'r dull mwyaf hyfyw ar gyfer ailosod Pont Llannerch. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol newydd. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn canolbwyntio ar sefydlu trefniadau llywodraethu priodol cyn symud ymlaen i'w cyflwyno. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Adolygu, datblygu a moderneiddio gwasanaethau cludiant gwledig, trefol a rhyng-drefol, lle bo'n briodol, gan weithio gyda phartneriaid ar y prosiect Metro ac ochr yn ochr â'r gwaith sydd ar y gweill i ddiwygio gwasanaethau bws. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Llunio Cynllun Cludiant Cynaliadwy (yn cynnwys Teithio Llesol). | Ar y cam achos busnes | Dim eithriad |
| Canolbwynt Gwefru Cerbydau Trydan y Rhyl. | Wedi'i gwblhau | Agorwyd y canolbwynt gwefru cerbydau trydan yn y Rhyl ym mis Rhagfyr 2022 ac mae bellach yn cael ei ddefnyddio. |
| Pedair Priffordd Fawr (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd). | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Wenffrwd (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd). | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Llwybr Teithio Llesol Corwen i Gynwyd. Cam 1 (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd). | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| 2a cyfleusterau ymwelwyr a llwybrau beicio newydd parc gwledig Moel Famau (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd). | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| 1a Sgwâr Sant Pedr (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd). | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |
| Maes Parcio Lôn Las Corwen (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd). | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwaith modelu traffig a dylunio gwaith gwella traffig. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae unrhyw newidiadau posibl i'r system draffig wedi'u gohirio, gan ganolbwyntio yn hytrach ar brosiect y Promenâd Canolog. |
| Isadeiledd Cerbydau Trydan - Pwyntiau Gwefru Cyhoeddus. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Nid yw dau safle ar agor eto. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Darparu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd, sy'n datblygu blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn fframwaith y polisi cenedlaethol. Bydd y CDLl newydd yn sicrhau bod blaenoriaethau lleol sy'n dod i'r amlwg o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau a pholisïau cynllunio lleol. | Wedi'i ddileu | Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i ddileu gan ei fod yn ailadrodd prosiect y Cynllun Datblygu Lleol o dan ein thema Tai. Bydd yn parhau i gael ei reoli trwy'r Cynllun Gwasanaeth. |
| Symud ymlaen at ddigideiddio gwasanaethau teleofal cyn y terfyn amser yn 2025 ar gyfer dod â gwasanaethau ffôn analog i ben. | Profi Rhwystrau | Bydd gwerthuso'r dewisiadau yn caniatáu gwneud penderfyniadau er mwyn symud ymlaen. |
| Llunio cynllun gweithredu gwydnwch cymunedol | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Disodli ein seilwaith wrth gefn presennol i ddileu dibyniaeth ar dechnoleg o'r gorffennol a gwella gwydnwch. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r canolbwynt gwefru cerbydau trydan yn y Rhyl yn cael ei gydnabod fel adnodd gwych gan drigolion lleol ac ymwelwyr. Ym mis Ebrill, fe wnaethom ymhelaethu ar y budd a'r effaith y mae'r safle bellach yn ei gael o ran cefnogi busnesau lleol i fuddsoddi mewn cerbydau mwy gwyrdd a rhoi hwb i nifer yr ymwelwyr â'r dref.

Ym mis Mehefin, flwyddyn ar ôl gweithredu'r ddwy orsaf gwefru cerbydau trydan cyhoeddus 50kw cyflym yn Rhodfa Brenin, Prestatyn, fe wnaethom adrodd eu bod wedi darparu gwefriad o 69,377 kwh sydd gyfwerth ag un daith i'r lleuad, yn seiliedig ar filltiroedd cyfartalog cerbydau trydan fesul cilowat. Mae'r fenter hon, a gefnogir gan gyllid o Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn Llywodraeth Cymru, wedi cofnodi 2,758 gwefriad unigol ar gyfer cerbydau trydan, gan gyflenwi saith cerbyd y dydd ar gyfartaledd ar y safle.

Cafodd gwaith ffordd hanfodol ei gwblhau yn ystod mis Ebrill a mis Mai ar yr A525 yn Nant y Garth, a oedd yn cynnwys gwaith llenwi tyllau yn y ffordd, glanhau'r ffordd, gwagio cwteri

ac ailadeiladu rhan o wal a ddifrodwyd, sy'n cynnal y ffordd gerbydau. Trwy gydol mis Mehefin, fe wnaethom gwblhau llawer o waith rhoi wyneb newydd ar ffyrdd yn y Rhyl. Er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel, cafodd y ffyrdd eu cau i gerbydau. Fodd bynnag, er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar y cyhoedd a busnesau, cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith ei wneud gyda'r nos a thros nos.

Mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych wedi lansio cynllun benthyca dyfeisiau sy'n galluogi aelodau llyfrgelloedd ar draws y sir i fenthyca tabled neu Chromebook o'u llyfrgell leol, yn yr un modd ag y buasent yn benthyca llyfr. Bydd y gwasanaeth newydd hwn o gymorth i drigolion gael mynediad i'r byd ar-lein, i ddatblygu eu sgiliau digidol a phrofi manteision bod mewn cysylltiad. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd hefyd yn rhan o'r Gronfa Ddata Genedlaethol, sy'n cynnig cardiau sim a data am ddim i bobl sy'n byw mewn tlodi data.

Ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Perfformiad adroddiad ar Gysylltedd Gwael â'r Rhyngrwyd yn Sir Ddinbych. Roedd Cyfarwyddwr Partneriaethau Openreach yng Nghymru hefyd yn bresennol yn y cyfarfod, trwy wahoddiad. Gan gefnogi'r thema hon ar gyfer Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well, gofynnodd y Pwyllgor bod adroddiad cynnydd pellach ar gysylltedd â'r rhyngrwyd, cynlluniau cyflwyno ac uwchraddio yn y dyfodol, ynghyd â gwybodaeth am gynlluniau neu'r cymorth sydd ar gael i gymunedau ac eiddo anodd eu cyrraedd yn y sir, yn cael ei gyflwyno iddynt o fewn chwe mis.

Mae sicrhau rhwydweithiau digidol gwell yn hanfodol ac mae cefnogi cymunedau i gyflawni hyn yn allweddol. Ym mis Mehefin, fe wnaethom dynnu sylw preswylwyr a busnesau yn Sir Ddinbych at ein cynnig o gyngor a chymorth am ddim gan ein Swyddog Digidol.

## Sir Ddinbych mwy gwyrdd

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Bydd Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021-2022 a 2029-2030) yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu bob tair blynedd. Cynhelir yr adnewyddiad a'r adolygiad swyddogol cyntaf o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol eleni, 2023-2024. Ni fydd y gwaith o gyflwyno'r strategaeth yn cael ei atal tra cynhelir yr adolygiad hwn; mae'r gwaith yn parhau ochr yn ochr â'r adolygiad i gyflawni Cyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon Net a lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

Mae sicrhau fod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn cael ei defnyddio, yn allweddol o ran cefnogi datganiad Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol y Cyngor (2019) a oedd yn ymrwymo'r Cyngor i ddod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych.

Mae yna nifer o fesuryddion perfformiad blynyddol allweddol yn cael eu defnyddio i farnu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei nodau ar gyfer 2030, gan gynnwys: lleihau'r allyriadau carbon mae'r Cyngor yn eu rhyddhau o ffynonellau amrywiol; cynyddu'r carbon sy'n cael ei ddal a'i storio o dir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli; a chynyddu cyfoeth y rhywogaethau ar y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno, yn ei brydlesu ac yn ei reoli, ac mae pob un ohonynt wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad diwethaf.

Rydym bellach yn gallu adrodd ein ffigwr ar gyfer lleihau carbon o'n llinyn mesur cadwyni cyflenwi ar gyfer 2022-2023, sef 46,738 tunnell. Mae data ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn cael ei ailgyfrif, o ystyried y gwelliant sylweddol mewn dulliau, sy'n golygu bod adroddiadau data yn llawer mwy cynhwysfawr yn 2022-2023. Mae'r dulliau gwell bellach yn cael eu hailadrodd ar gyfer data gwariant 2019-2020, 2020-2021 a 2021-2022 ar ein cadwyn gyflenwi.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi mentrau mwy gwyrdd, gweler ein thema Tai ar gyfer effeithlonrwydd ynni ac ein thema Sir Ddinbych sydd wedi Cysylltu'n Well ar gyfer teithio cynaliadwy a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.

**Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod Sir Ddinbych yn wydn yn erbyn effeithiau newid hinsawdd a dirywiad natur – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 43.61% Blaenoriaeth i Wella |
| Di-garbon Net - Cyfanswm y tunelli o garbon sy'n cael ei allyrru a'i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio cadwyni cyflenwi) –**wedi'i feincnodi'n lleol** | 12,205 Derbyniol Gwaeth | 11,832 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Canran y tir y mae CSDd yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf o ran cyfoeth rhywogaethau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 40.62% Derbyniol Gwell | 42.00% Derbyniol Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd fflyd – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2,699 Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 2,302 Derbyniol Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd teithio busnes– **wedi'i feincnodi'n lleol** | 163 Rhagorol Gwell | 251 Rhagorol Gwaeth |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd cadwyni cyflenwi– **wedi'i feincnodi'n lleol** | Aros am ddata | 46,738 tunnell Blaenoriaeth i Wella |
| Gallu (mewn MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd yn ein hadeiladau (sy'n eiddo i'r Cyngor ac a weithredir ganddo) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 1 MW |
| Canran y gwastraff trefol a gafodd ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio- **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 67.67% Rhagorol | 65.91% Da Gwaeth |
| Nifer yr eiddo â risg uchel neu ganolig o lifogydd (ar draws CSDd) - **Cyfrif yn Unig** | 1,171 | 1,171 |
| Ardal o rostir (grug, eithin a rhedyn) a reolir yn flynyddol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 20 hectar | 80 hectar Rhagorol Gwell |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Nid yw data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei gyhoeddi'n aml, bob pedair i bum mlynedd. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Amgylchedd Ffisegol (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 2%<br>Da<br>Gwell | 2%<br>Da<br>Yr un fath |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae'r thema hon yn cael ei chefnogi gan y Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol drosfwaol 2021-2030 ac 18 o brosiectau a gweithgareddau eraill. Mae wyth ohonynt 'Ar y trywydd iawn', wyth yn 'Profi Rhwystrau', dau wrthi'n cael eu datblygu ac mae un yn parhau 'Mewn Perygl', sef y prosiect Ailfodelu Gweithrediadau'r Gwasanaeth Gwastraff.

Mae'r ddau Gynllun Gwella Amddiffynfeydd Arfordirol ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn yn parhau 'Ar y trywydd iawn'. Mae Gweithgor i oruchwylio datblygiad Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd newydd erbyn 2024, yn cael ei ailffurfio gan Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd.

Mae'r prosiect "Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan a Phrynu Cerbydau Trydan Corfforaethol, Cam 3" wedi'i addasu i ganolbwyntio ar Gam 2 yn unig. Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni Cam 2 ac mae teitl y prosiect wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu hynny. Bydd Cam 3 yn cael ei gyflawni fel yr arfer yn y dyfodol.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021 – 2030 | Profi Rhwystrau | Bydd oedi â chyflawni'r prosiect, gan olygu y bydd |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | Yr un fath | oedi o ran gwireddu'r buddion hefyd. |
| Lleihau carbon o adeiladau | Ar y cam achos busnes | Mae yna oedi o ran rhoi prosiectau ar waith, ac ni chafodd gwaith ei orffen mewn ysgolion dros wyliau'r haf. |
| Cam 2 Cerbydau Trydan y Fflyd Gorfforaethol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Atafaelu carbon ar ddaliadau tir presennol | Profi Rhwystrau<br>Gwaeth | Bydd oedi â'r broses o brynu Moel y Plas a Llys Brenig yn effeithio ar greu coetir. |
| Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt | Profi Rhwystrau<br>Gwell | Rhoddir sylw i bryderon a godwyd ynghylch cynnydd y prosiect. |
| Gwarchodfa Natur yn Fferm Green Gates, Llanelwy | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Gallai amcangyfrifon cost newydd, capasiti adnoddau a chyfyngiadau argaeledd, yn ogystal â materion cynllunio ynghylch traffig posibl effeithio ar gerrig milltir y prosiect, cyllideb, cwmpas y gwaith ac o bosibl cyllid. |
| Newid ymddygiad er mwyn gweithredu ar newid hinsawdd ac adfer natur | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Lleihau carbon trwy gaffael | Profi Rhwystrau | Ni fydd y Partner Busnes Caffael Datgarboneiddio yn ei swydd nes dechrau fis Medi, er mwyn datblygu'r cynllun gwaith. |
| Caffael tir at ddibenion carbon ac ecolegol 2023 i 2024 | Profi Rhwystrau | Oedi â'r broses o brynu Moel y Plas a Llys Brenig. |
| Gwneud gwaith i fynd i'r afael â chlefyd coed ynn, yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar draws y sir. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau yn holl feysydd gwasanaeth ein Cyngor | Profi Rhwystrau | Newydd o fis Ebrill 2023. Mae llawer o'n prosiectau yn dibynnu ar gefnogaeth gwirfoddolwyr a phartneriaethau cadarn â thirfeddianwyr a rheolwyr tir. |
| Isadeiledd Gwyrdd yn y Rhyl | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ailfodelu Gweithrediadau'r Gwasanaeth Gwastraff | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Un mater allweddol sydd angen ei ddatrys ar hyn o bryd yw ffordd ymlaen ar gyfer cyflawni Cam 2 yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff. |
| Byddwn yn gweithio tuag at leihau'r defnydd o blastig o fewn Cyngor Sir Ddinbych, gan gynnwys Arlwyo a Chaffael mewn Ysgolion, ynghyd ag unrhyw waith yn y dyfodol (gan gynnwys ei Fodelau Cyflawni Amgen (MCA) megis Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig). | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae pryderon parhaus ynglŷn â cholli incwm pe bai'r gwasanaeth yn rhoi'r gorau i werthu diodydd. |
| Cyflawni prosiectau gwella ac ehangu ar gyfer rhandiroedd Cyngor Sir Ddinbych | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Strategaeth Llifogydd newydd ar gyfer y sir | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Cynllun Gwella Amddiffyniad Arfordirol Canol Prestatyn | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cynllun Gwella Amddiffyniad Arfordirol Canol y Rhyl | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| 2b Cyfleusterau newydd i ymwelwyr a rheoli llifogydd ym mharc gwledig Loggerheads (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Dim eithriad |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Ebrill, fe ehangwyd ein fflyd o Gerbydau Trydan, wrth i Ganolfan Plant Integredig y Dderwen ddechrau defnyddio bysiau mini Trydan i gludo plant i'r ysgol ac oddi yno, ac i ddigwyddiadau a chlybiau gwyliau. Roedd y Tîm Ceidwaid Chwarae sydd hefyd wedi'u lleoli yn y ganolfan, yn gyfrifol am fan Ceidwad Chwarae drydan, er mwyn cefnogi eu gwasanaeth i ddarparu sesiynau chwarae mynediad agored mewn ardaloedd cymunedol ar hyd a lled y sir. Ym mis Mehefin, derbyniodd y gweithwyr Gwasanaethau Stryd hefyd ddau gerbyd trydan newydd a ddefnyddir ar gyfer gwaith glanhau strydoedd yn ystod y tymor twristiaeth, yn ogystal â'r holl ddyletswyddau cynnal a chadw cyffredinol.

Bu Tîm Ynni ein Hadain Eiddo yn gweithio mewn partneriaeth â Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig yng Nghanolfan Hamdden Huw Jones a Chanolfan Fowlio Gogledd Cymru i leihau allyriadau o'n hystâd eiddo yn llwyddiannus.

Dechreuodd gwaith i wella amddiffynfeydd arfordirol ar y promenâd ym Mhrestatyn fel rhan o Gynllun Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn ym mis Ebrill. Nod y cynllun gwerth miliynau o bunnoedd hwn yw amddiffyn dros 2,000 o eiddo yn yr ardal rhag llifogydd ac erydiad arfordirol yn y dyfodol. Ym mis Mai, cafodd Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl ei agor yn swyddogol gan Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a gafodd ei gwblhau o fewn y gyllideb a bron i flwyddyn yn gynt na'r disgwyl. Bu i'r Gweinidog ymweld â Chanol y Rhyl a Chanol Prestatyn hefyd. Bydd cyfanswm cost y tri phrosiect hwn, sef £125 miliwn, yn lleihau'r perygl o lifogydd ar gyfer mwy na 3,500 o gartrefi a busnesau.

Ym mis Mai, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a oedd yn gofyn am eu cefnogaeth i'r cynnig i ail-sefydlu Gweithgor Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer goruchwylio datblygiad Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd erbyn 2024. Cytunodd yr Aelodau ar y cynnig a gofynnwyd hefyd bod cynrychiolydd yn cael ei ddewis o bob Grŵp Ardal Aelodau i wasanaethu ar y Gweithgor; a bod yr holl fudd-ddeiliaid yn cael gwybod am y Gweithgor, yn cael gwahoddiad ac yn cael digon o rybudd am ddyddiadau cyfarfodydd arfaethedig er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu mynychu a chymryd rhan.

Fe wnaethom annog pobl i rannu eu safbwyntiau gwyrdd ar fynd i'r afael â newid hinsawdd trwy lansio arolwg ar-lein (a ddaeth i ben ar 2 Gorffennaf) ynghylch sut y gallwn

lunio camau nesaf ein gwaith hinsawdd ac ecolegol, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng a gyhoeddwyd yn 2019. Ym mis Mehefin, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau am y gwaith o adolygu a diwygio Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor, a gynhelir yn ystod 2023-2024. Y bwriad yw i'r strategaeth ddiwygiedig gael ei mabwysiadu gan y Cyngor erbyn mis Mawrth 2024 ar gyfer bwydo i mewn i'r Cynlluniau Busnes Gwasanaeth ar gyfer 2024-2025.

Bob blwyddyn, mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cyflwyno gwobr yn flynyddol i gymuned, unigolyn neu fusnes sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i dirwedd yr AHNE. Ym mis Ebrill, cyflwynwyd y wobr i gydnabod gwaith y Grid Cenedlaethol am eu cefnogaeth i'r prosiect 'Tirweddau Coll' sydd wedi'i ariannu trwy eu cynllun Menter Gwella Tirwedd, sydd wedi helpu i adfer rhai o nodweddion allweddol yr AHNE.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn arwain prosiect Awyr Dywyll cenedlaethol drwy Cymru Gyfan ac mae wedi cael cyllid grant drwy raglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, i ariannu cynlluniau goleuo a phrosiectau ôl-osod ar draws yr wyth tirwedd Ddynodedig rhwng 2022 a 2025.

Er mwyn rhoi dechrau cynaliadwy i fabanod yn ystod Wythnos Clytiau Cadw ym mis Ebrill, fe wnaethom ail-lansio ein cefnogaeth i deuluoedd trwy'r Cynllun Talebau Clytiau Cadw. Mae'r cynllun hwn yn darparu clytiau cadw, modern a chyfforddus a all arbed arian i deuluoedd yn yr hirdymor, yn ogystal â chael llai o effaith ar yr amgylchedd a gallai leihau gwastraff y cartref.

Fe wnaethom barhau i fwrw ymlaen â gwella ein bioamrywiaeth yn lleol er mwyn cefnogi natur a lles cymunedol yn well ar gyfer y dyfodol. Ar Ddiwrnod y Ddaear fe wnaethom ddiolch i holl aelodau'r gymuned a roddodd o'u hamser i greu ardaloedd coetir newydd a gwell ddechrau'r flwyddyn hon. Ym mis Mehefin, yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr, fe wnaethom unwaith eto ddathlu a diolch i'n holl wirfoddolwyr am eu cefnogaeth ar gyfer ein holl brosiectau bioamrywiaeth.

Ddiwedd mis Ebrill, fe welsom y Môr-wenoliaid Bach yn dod yn ôl i glwydo dros dymor yr haf ac fe gofnodwyd 162 o nythod erbyn diwedd mis Mai. Dyma'r nythfa fagu fwyaf yng Nghymru ac mae ein Gwasanaethau Cefn Gwlad a'n gwirfoddolwyr yn gweithio'n galed i warchod a chefnogi'r nythfa bwysig hon yn Sir Ddinbych.

Fel rhan o gymhelliad yr Wythnos Fawr Werdd ar gyfer gweithredu cymunedol er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd a gwarchod natur, fe wnaethom gynnal nifer o weithgareddau a oedd yn cynnwys creu gwesty trychfilod newydd sbon yng ngardd Llyfrgell y Rhyl.

Gall presenoldeb rhywogaeth hefyd fod yn fesur o ansawdd ecolegol cyffredinol ardal ac yn ystod y cyfnod, rydym wedi gweithio'n galed i ddiogelu a gwella ardaloedd bioamrywiaeth. Fel yn achos Madfallod y Twyni yn nhwyni Gornant, mae nifer y Ffacbys Rhuddlas, rhywogaeth o blanhigion sy'n blodeuo yn nheulu pys Fabaceae yn ein Planhigfa Goed yn tyfu ac yn datblygu glaswelltir brodorol ar gyfer gloÿnnod byw.

Fe wnaethom gynnal noson ystlumod yn Nantclwyd y Dre er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd gael gweld rhai o'r mamaliaid yn dod yn fyw wrth iddi dywyllu. Mae'r tŷ rhestredig Gradd I yn gartref i'r Ystlum Pedol Lleiaf, yr Ystlum Hirglust a'r Ystlum Lleiaf ac mae camera ystlumod yno i bobl eu gwylio pan fo'r tŷ ar agor.

Rydym wedi parhau i ehangu ein Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt ar gyfer 2023. Yn ystod mis Mehefin, fe wnaethom gynnal ein Wythnos Blodau Gwyllt gyntaf, a chafodd digwyddiadau eu cynnal ledled y sir. Am y tro cyntaf, mewn dolydd blodau gwyllt yn ystod digwyddiad ym Mhrestatyn, fe ddaethom ar draws tegeirian bera. Trwy dyfu dolydd blodau gwyllt amrywiol ar draws y sir, mae'r prosiect yn darparu ffynhonnell gyfoethog o neithdar a phaill ar gyfer chwilod, gan eu denu mewn niferoedd sylweddol.

I ddathlu diwrnod olaf yr Wythnos Blodau Gwyllt, gwahoddwyd y staff Cefn Gwlad, cwmni cydweithredol Pladuro Gogledd Cymru a phreswylwyr lleol i Blanhigfa Goed Llanelwy i ddysgu sut i bladuro neu wella eu gallu o ran y sgil draddodiadol hon o reoli dolydd, gyda chymorth gan arbenigwyr pladuro lleol.

Yn ystod mis Mai a'r ymgyrch Mai Dim Torri Gwair, sy'n cyd-fynd ag ethos y Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt, fe wnaethom ofyn i'r rhai sydd â diddordeb mewn cefnogi newid yn yr hinsawdd i awgrymu ardaloedd newydd o dir i'w hychwanegu at y prosiect.

Fe wnaethom barhau i ddatblygu perllan gymunedol i'r de o Warchodfa Natur Pwll Brickfield, gan osod blychau adar ac ystlumod er mwyn denu bywyd gwyllt adeiniog i gartrefi newydd ar y safle. Cafodd cartrefi hanfodol eraill eu hadeiladu gan y staff Cefn Gwlad a gwirfoddolwyr a gefnogwyd gan Natur er Budd Iechyd a Chymorth i Ddraenogod Prestatyn, ar ffurf cartrefi i ddraenogod a gwestai i drychfilod. Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at yr holl waith sy'n cael ei gynnal gennym yng Ngwarchodfa Natur Rhuddlan.

Mae waliau cerrig sychion yn chwarae rhan bwysig o ran bioamrywiaeth, trwy ddarparu cynefin i lawer o blanhigion ac anifeiliaid ac ym mis Mai, dechreuodd ein staff Gwasanaethau Cefn Gwlad, ynghyd â gwirfoddolwyr a gefnogir gan Natur er Budd Iechyd a seiri meini lleol ailddatblygu ardaloedd â waliau cerrig sychion ym Mhencoed (Mount Wood), Dinbych Uchaf.

Fel rhan o'n gwaith i wella cyfraddau ailgylchu yn y sir, fe wnaethom gyhoeddi manylion casgliadau Cynnyrch Hylendid Amsugnol newydd Sir Ddinbych ym mis Mehefin, sydd i'w lansio fel cynllun peilot ar gyfer codau post LL16 a LL17 o fis Medi 2023. Nod y gwasanaeth wythnosol rhad ac am ddim yw lleihau'r gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol ym miniau du preswylwyr, sy'n gyfwerth ag 20% o wastraff mewn biniau du ar hyn o bryd.

Ym mis Mai, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran Cam 2 Contract Gwaith Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd CSDd, ymestyn Ystâd Ddiwydiannol Colomendy. Gan gadarnhau bod cwblhau'r gwaith yn hanfodol, fe wnaethant gytuno ar y dewis a ffefrir, yn ogystal â chydnabod y pwysau cyllidebol diweddaraf. Ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff. Roedd yn gyfle iddynt graffu ar y Polisi Casgliadau Gwastraff diweddaraf. Yn ogystal, roedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno gwasanaeth Cynnyrch Hylendid Amsugnol newydd a'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i aelwydydd ansafonol.

Ym mis Mai, fe wnaethom ofyn i berchnogion cŵn gofio cadw eu hanifeiliaid ar dennyn wrth gerdded drwy fannau harddwch y sir lle mae da byw.

Ym mis Mehefin, trwy Ddedfryd yn dilyn torri rheolau cynllunio, cyflëwyd neges bendant y bydd y Cyngor yn cymryd camau cadarn yn erbyn y rhai sy'n dewis torri'r gyfraith a difetha cefn gwlad Sir Ddinbych.

## Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae'r rhan fwyaf o'r llinynnau mesur isod yn rhai newydd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol hwn a blwyddyn ariannol 2023-2024. Rydym yn aros am rywfaint o ddata ar gyfer yr adroddiad hwn a bydd yn cael ei gasglu ar gyfer ein hadroddiad nesaf. Disgwylir gwybodaeth arall, megis 'nifer yr achosion a adroddwyd o fwlio cysylltiedig â rhagfarn mewn ysgolion' ym mis Hydref 2023.

Adroddodd Heddlu Gogledd Cymru 99 o ddioddefwyr sy'n profi cam-drin domestig yn gyson ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, o gymharu â 143 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd (gostyngiad o 30.8% yn Sir Ddinbych). Mae Gogledd Cymru wedi gweld gostyngiad o 27.5% yn nifer y bobl sy'n dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. O ran nifer y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro, cofnodwyd 6 troseddwr rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae hyn yn ostyngiad o 50% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, lle adroddwyd am 12 o droseddwyr. Nid yw'r gostyngiad yn cyd-fynd â'r darlun cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, a oedd yn dangos cynnydd o 28.6%.

Cafodd y llinyn mesur yn ymwneud â chwblhau ein modiwl e-ddysgu caethwasiaeth fodern a thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (heb fod yn orfodol) ei adrodd yn flaenorol fel llinyn mesur blynyddol. Mae data ar gael yn chwarterol ac mae'r nifer sy'n cael eu cwblhau wedi gwella ers y cyfnod diwethaf a chaiff ei ystyried yn 'Dda'.

Yn ôl y data diweddaraf gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol wedi cynyddu o 9.1% yn 2019-2020 i 14.8% yn 2022-2023. Ar sail y dirywiad hwn - gan ddefnyddio ein dull safonol ar gyfer cyfrifo'r hyn a ystyrir fel perfformiad gwael a rhagorol - mae perfformiad yn 'Dderbyniol'. Yn ystod 2022-2023, Castell-nedd Port Talbot oedd â'r ganran uchaf o bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol, sef 21.5% a Sir Fynwy oedd â'r ganran isaf, sef 8.4%.

Roedd 21.1% o blant yn Sir Ddinbych yn byw mewn aelwydydd di-waith yn 2021 ac mae hyn yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Rydym yn aros i ddata cenedlaethol gael ei gyhoeddi, er mwyn gwneud rhagor o ddiweddariadau i’r llinyn mesur hwn.

Mae’r peilot incwm sylfaenol cenedlaethol wedi dechrau ac mae 100% o bobl ifanc cymwys Sir Ddinbych, sydd â phrofiad o ofal yn cymryd rhan yn y cynllun, a ystyrir yn ‘Rhagorol’.

O ran “Llinynnau mesur pob aelwyd ac aelwyd diamddiffyn sy’n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru (daliwr lle)”, rydym wedi gwneud ymholiadau â chydweithwyr yn Data Cymru am fesuryddion cenedlaethol addas ar gyfer adrodd ar dlodi tanwydd ar lefel awdurdod lleol; fodd bynnag, ymddengys ar hyn o bryd nad oes rhai’n bodoli ar gyfer adrodd arnynt yn rheolaidd. Rydym yn archwilio a oes unrhyw linynnau mesur lleol yn bodoli neu a allai gael eu casglu’n hawdd.

Bydd canran y disgyblion cynradd ac uwchradd cymwys a oedd yn cymryd Prydau Ysgol am Ddim yn ystod tymor yr haf 2023 ar gael yn ein hadroddiad nesaf.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau i gefnogi lles, gweler ein thema Sir Ddinbych Iachach, Hapusach a Gofalus. Mae gwybodaeth ychwanegol i gefnogi tai a digartrefedd yn ein thema Tai; llinynnau mesur a gweithgareddau i gefnogi cyflogaeth ac amddifadedd yn ein thema Sir Ddinbych ffyniannus ac addysg a gwirfoddoli yn ein themâu Sir Ddinbych sy’n Dysgu a Thyfu a Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu’n well.

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) yr adroddiadau am bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddent yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi’i fesur yn y flwyddyn hyd yma) - **Cyfrif yn Unig** | 143 | 266 | 386 | 537 | 99 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) yr adroddiadau am bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy mewn 12 mis) - **Cyfrif yn Unig** | 12 | 28 | 42 | 56 | 6 |
| Canran y disgyblion ysgol gynradd cymwys sy'n cymryd Prydau Ysgol am Ddim (Sir Ddinbych) – **Cyfrif yn Unig** | Newydd ar gyfer 2022-2023 | Dim data: nid yw'n berthnasol | 68.3% | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Canran y disgyblion ysgol uwchradd cymwys sy'n cymryd Prydau Ysgol am Ddim (Sir Ddinbych) - **Cyfrif yn Unig** | Newydd ar gyfer 2022-2023 | Dim data: nid yw'n berthnasol | 80.52% | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi cwblhau'r modiwlau e-ddysgu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Newydd ar gyfer 2022-2023 | Newydd ar gyfer 2022-2023 | Newydd ar gyfer 2022-2023 | 82% Derbyniol | 87% Da Gwell |

## Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

## Data 2019 - 2023

| Teitl | 2019 - 2020 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd materol – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 9.1% | 14.8% Derbyniol Gwaeth |

**Data 2021 - 2023**

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno fod pobl yn Sir Ddinbych yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, a bod ganddynt fynediad at gyfleoedd i hyrwyddo eu lles a chydlyniant cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 36.23%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu trosedd casineb (heb fod yn orfodol) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | 7%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu caethwasiaeth fodern (heb fod yn orfodol) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | 25%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Nifer yr achosion o fwlio cysylltiedig â rhagfarn mewn ysgolion - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | Aros am ddata. Disgwylir ym mis Hydref 2023 |
| Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu llyfrgell yn lle pleserus, diogel a chynhwysol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 93<br>Rhagorol<br>Yr un fath | 93<br>Rhagorol<br>Yr un fath |
| Canran y plant mewn tlodi yn Sir Ddinbych – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 34.9%<br>Blaenoriaeth i Wella | 28.1%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd di-waith – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 21.1%<br>Blaenoriaeth i Wella | Aros am ddata |
| Llinynnau mesur pob aelwyd ac aelwyd ddiamddiffyn sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru (daliwr lle) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Canran y bobl ifanc gymwys sy'n gadael gofal ac yn derbyn y peilot incwm sylfaenol gan Lywodraeth Cymru - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | Dim data. Cynnal Cynllun Peilot ar draws Cymru | 100%<br>Rhagorol |
| Nifer y teuluoedd sydd wedi'u hadsefydlu yn Sir Ddinbych – **Cyfrif yn Unig** | 6 | 75 |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Nifer y Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches yn Sir Ddinbych -**wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |
| Nifer y cwynion a dderbyniodd y Cyngor gan gwsmeriaid yn ymwneud â hil – **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 |

### Llinynnau Mesur Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Nid yw data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei gyhoeddi'n aml, bob pedair i bum mlynedd. Oni bai bod data newydd yn cael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwneud sylwadau ar ddata MALIC, ond byddwn yn cadw'r llinynnau mesur yn yr adroddiad hwn gan eu bod nhw'n rhoi cyd-destun pwysig ac yn helpu i lywio statws cyffredinol ein llinynnau mesur ar gyfer pob thema.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran **Diogelwch Cymunedol** (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 10%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **wedi' feincnodi'n genedlaethol** | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae yna 22 prosiect o fewn y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Bydd un prosiect newydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2023, yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Darpariaeth Ardaloedd Chwarae Hygyrch.

Bu i wyth o brosiectau a gweithgareddau eraill ddechrau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, gan olygu bod cyfanswm o 13 ohonynt 'Ar y trywydd iawn'. Mae un gweithgaredd, sef 'Cefnogi amrywiaeth ac ymgysylltiad drwy gynnwys y fframwaith ar ddull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol' 'Mewn Perygl'. Yn dilyn hysbysiad o ostyngiad mewn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn, mae'r tîm yn dilyn dull sydd

wedi'i dargedu'n well. Mae dau ohonynt yn 'Profi Rhwystrau', ac eithrio'r rhai sydd wedi'u nodi isod. Mae "Gweithio mewn Partneriaeth i wella cynnig y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn Sir Ddinbych" bellach wedi'i gwblhau. Mae disgwyl i dri phrosiect neu weithgaredd ddechrau yn ystod 2023-2024. Rydym yn aros am un diweddariad.

Mae rhestr gyswllt wedi'i llunio ar gyfer sefydliadau allweddol ac eiriolwyr sy'n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig, neu sydd â phrofiad o wneud hynny. Byddwn yn dechrau gwaith i gyhoeddi a hysbysebu'r rhestr hon yn y cyfnod nesaf.

Mae'r gweithgaredd "Gweithio mewn Partneriaeth i wella cynnig y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn Sir Ddinbych" bellach wedi'i gwblhau. Mae Rheolwr Cydlyniant Cymunedol yn rhan o gyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth rheolaidd.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Ymgymryd â gwaith ataliol, mewn partneriaeth ag Adrannau Trwyddedu'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol, mewn perthynas ag eiddo busnes (gan gynnwys gwerthu i rai dan oed, alcohol, tybaco ac e-sigaréts). | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Datblygu a darparu digwyddiadau cymunedol codi ymwybyddiaeth o gymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Prynu camerâu ANPR - Prynu chwe chamera gwyliadwriaeth manyleb ANPR arbenigol y gellir eu hadleoli a fydd yn ein galluogi i fonitro a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â mannau problemus o ran troseddau amgylcheddol. | Heb ddechrau | Derbyniwyd Cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer hyn a bydd yn dechrau o fis Mehefin 2023. |
| Gweithio mewn partneriaeth i wella cynnig y Rhaglen | Wedi'i gwblhau | Mae Rheolwr Cydlyniant Cymunedol bellach yn rhan o gyfarfodydd y Bartneriaeth |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Cydlyniant Cymunedol yn Sir Ddinbych. | | Diogelwch Cymunedol er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth rheolaidd. |
| Ymrwymo i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru drwy Gynlluniau Busnes Gwasanaethau | Profi Rhwystrau | Mae manylion rhai camau gweithredu a llinellau cyfrifoldeb yn y broses o gael eu cytuno gyda gwasanaethau o hyd. |
| Cyflawni'r addewid i hybu dim hiliaeth yn Sir Ddinbych | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| *Hyrwyddo Rhaglen Saesneg fel Iaith Ychwanegol i ysgolion, o ran mynd i'r afael â hiliaeth a sicrhau bod polisïau gwrth-hiliaeth ysgolion yn rhai cyfredol (mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol)* | *Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei ddatblygu.* | Dim eithriad |
| Cefnogi ac ymgysylltu â thenantiaid sydd fwyaf tebygol o brofi anghyfartaledd cymdeithasol i gael mynediad at wasanaethau a chymryd rhan weithredol yn eu cymuned. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Parc Bruton, y Rhyl (gweithio gyda phreswylwyr Parc Bruton i wneud y mwyaf o les cymunedol). | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Datblygu canolfannau Croeso Cynnes ledled y Sir. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Cefnogi amrywiaeth ac ymgysylltiad drwy gynnwys y fframwaith ar ddull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Oherwydd y gostyngiad mewn arian grant a'r gofyniad gan Lywodraeth Cymru, rydym yn defnyddio'r grant i barhau â ffrydiau gwaith 2022-2023, ond rydym yn defnyddio dull wedi'i dargedu'n well i gefnogi clystyrau unigol â'u dulliau ysgol gyfan. Rydym yn parhau i gefnogi dulliau perthynol a seiliedig ar drawma tuag at les. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Adolygu a diwygio Cyngor yr Ifanc ar gyfer Sir Ddinbych. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Ymgorffori Strategaeth Gwrth-fwlio CSDd ym mhob ysgol. | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Urddas Mislif. | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu rhwydwaith i gynnwys pobl a grwpiau â nodweddion gwarchodedig (drwy'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol) | Ar y trywydd iawn | Mae rhestr gyswllt wedi'i llunio ar gyfer sefydliadau allweddol ac eiriolwyr sy'n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig, neu sydd â phrofiad o wneud hynny. Byddwn yn dechrau gwaith i gyhoeddi a hysbysebu'r rhestr hon yn y cyfnod nesaf. |
| Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Datblygu a darparu Strategaeth Fwyd a Rhwydwaith Partneriaeth Bwyd ar gyfer y sir gyfan (gan gynnwys y prosiect archfarchnad gymdeithasol – Cogog) o amgylch Sir Ddinbych. | Profi Rhwystrau | Mae gweledigaeth y prosiect yn cael ei hadolygu. Bydd ymarfer mapio'n cael ei gynnal o fentrau bwyd cymunedol yn Sir Ddinbych. |
| Datblygu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol i gefnogi plant i fwyta'n dda | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu'r cynnig, drwy Sir Ddinbych yn Gweithio, fel y gall yr holl ffoaduriaid sydd wedi ymgartrefu yn Sir Ddinbych, dderbyn cefnogaeth gan fentor cyflogaeth (mae pob oedolyn yn cymryd rhan weithredol mewn dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill- ESOL) | Heb dderbyn diweddariad eto | Heb dderbyn diweddariad eto |
| Mewn partneriaeth â Hamdden Sir Ddinbych Cyf | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| a'r Trydydd Sector, sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau creadigol a diwylliannol i weithio gyda theuluoedd sydd wedi'u hadsefydlu yn y sir | | |
| Newydd: Isadeiledd cymunedol mwy gwyrdd: Darparu Ardaloedd Chwarae Hygyrch er mwyn darparu ardaloedd chwarae mewn lleoliadau strategol ar draws y sir sy'n hygyrch i bawb drwy osod cyfarpar arbenigol a gwneud gwelliannau i lwybrau cerdded a dodrefn stryd yn y parth cyhoeddus a'r cyffiniau. | Heb ddechrau | Dyma brosiect newydd a bydd y gwaith yn dechrau o fis Gorffennaf 2023 ymlaen. |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol rhwng mis Ebrill a mis Mehefin i gefnogi'r thema hon:

Ers mis Medi 2022, mae'r cynnig Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd wedi'i gyflwyno yn Sir Ddinbych i ddisgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Mae tîm arlwyo Sir Ddinbych wedi gweithio'n galed i weini cyfanswm o 139,296 o Brydau Ysgol am Ddim i blant ysgolion cynradd rhwng mis Medi 2022 a mis Mehefin 2023. Dechreuodd Cyngor Sir Ddinbych gynnig Prydau Ysgol am Ddim i holl ddisgyblion Blwyddyn 2 ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych o ddiwedd mis Ebrill. Disgwylir i'r cynllun hwn gael ei ymestyn i Flynyddoedd 3 a 4 o fis Medi 2023, a thrwy gyflwyno'r cynllun fesul cam, bydd holl ddisgyblion cynradd yn cael cynnig prydau ysgol am ddim erbyn 2024.

Mae'r Cyngor yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda chwilio am fwy o letywyr er mwyn i deuluoedd o Wcráin gael lle diogel i'w alw'n gartref. Rydym wedi croesawu teuluoedd ac unigolion i Sir Ddinbych, gan gynnig addysg a chyflogaeth, wrth i deuluoedd ymgartrefu yn y bywyd Cymraeg a gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'n cymunedau. Mae un o'r rheiny sydd wedi cael lloches yn Sir Ddinbych bellach yn byw gyda noddwr, ac yn gweithio ar leoliad 12 wythnos fel Swyddog Cefnogi Newid Hinsawdd, gan helpu i brosesu data pwysig ynglŷn â newid hinsawdd.

Bu'r Cyngor yn cydweithio â busnes lleol yn y Rhyl, PKS Watersports, er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd logi cadair olwyn y gellir ei defnyddio ar y traeth, gan wella hygyrchedd i'r rhai a allai fod ei angen. Yn aml, bydd defnyddwyr cadair olwyn yn ei chael hi'n anodd symud trwy'r tywod a'r cerrig, a gall hyn gyfyngu ar eu mynediad a'u gallu i fwynhau'r traeth.

Drwy gydol y gaeaf, mae'r Cyngor, ynghyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wedi cefnogi 38 o elusennau a grwpiau cymunedol lleol i gynnig croeso cynnes yn ystod yr argyfwng costau byw. Daeth partneriaid ar draws Sir Ddinbych at ei gilydd i ddarparu mannau cynnes a diogel i bobl a oedd yn cael trafferth ymdopi â'r costau ynni cynyddol. Mae 398 o unigolion wedi bod yn defnyddio un o'r canolfannau clyd yn wythnosol. Mae canolfannau cymunedol yng Nghorwen, Rhuthun a'r Rhyl wedi cynnig canolfannau clyd gyda diodydd poeth, cyfle i gymdeithasu a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis dosbarthiadau celf a chrefft dros y gaeaf. Bu i lyfrgelloedd lleol hefyd gymryd rhan yn y cynllun. Mae grwpiau cymunedol a'r trydydd sector hefyd wedi gallu cynnig nifer o amwynderau, yn cynnwys prydau poeth am ddim, cefnogaeth â dyledion ac eirioli, cymorth gofal dydd i bobl o bob oed, siediau i ddynion a merched a chludiant yn ardaloedd mwy gwledig y sir.

Derbyniodd y Cyngor Rybudd o Gynnig ym mis Mai, ar ran Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, i'w ystyried mewn perthynas â'r Cyngor yn cynnal trafodaethau i ddarparu eiddo posibl yng nghanol tref Prestatyn i'w ddefnyddio gan Heddlu Gogledd Cymru fel Gorsaf Heddlu leol.

Bu i Gyngor Sir Ddinbych nodi Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn a Diwrnod y Lluoedd Arfog ym mis Mehefin, gan godi baneri Diwrnod y Lluoedd Arfog Cymraeg a Saesneg yn Neuadd y Sir, Rhuthun. Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog, a gynhelir ar 24 Mehefin, yn gyfle i ddangos cefnogaeth i'r dynion a'r merched sy'n aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog, o swyddogion sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd i deuluoedd y Lluoedd, cyn-filwyr a chadetiaid. Mae Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn yn dathlu eu cyfraniad i'r Lluoedd Arfog a chaiff ei gynnal ar 21 Mehefin.

## Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Llinynnau mesur: Derbyniol

Prosiectau: Profi Rhwystrau

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Roedd nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (3 oed neu hŷn) ddiwedd mis Mawrth 2023 yn 35,000, sef 38%. Er bod canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu'n gyffredinol ar gyfer Cymru gyfan, nid dyna'r achos yn Sir Ddinbych, gyda 900 yn llai o bobl yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg (gostyngiad o 0.9%) o gymharu â diwedd mis Mawrth 2022. Nid yw'r rhesymau am hyn yn hysbys ar hyn o bryd. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol ac yn gallu siarad mwy nag ambell air o Gymraeg (pob oedran), o 15% yn 2021-2022 i 13% yn 2022-2023.

Derbyniodd 27.4% o ddisgyblion blwyddyn un eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022, cynnydd o 0.4% ers y flwyddyn flaenorol. Ein huchelgais yw cynyddu hyn i 32% erbyn 2027 (diwedd y Cynllun Corfforaethol newydd hwn), gan weithio tuag at 40% erbyn 2032. Mae ein huchelgais yn seiliedig ar ragamcanion, sy'n cynnwys rhagdybiaethau yn ymwneud â thwf yn y galw mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a thrawsnewid ysgolion cyfrwng Saesneg presennol i gynnig cyfnod sylfaen cyfrwng Cymraeg. Roeddem wedi gobeithio cadarnhau ein trothwy ar gyfer ymyrraeth h.y. beth sy'n cael ei ystyried fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella', yn yr adroddiad hwn, ond bydd yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiad nesaf.

Erbyn diwedd mis Mehefin 2023, roedd 80.3% o staff wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg (cynnydd o 73% ar ddiwedd mis Mawrth 2023) ac mae hynny'n 'Dderbyniol'.

Bu i 4,350,000 o dwristiaid ymweld â Sir Ddinbych yn 2020, sy'n gynnydd ers ffigyrau'r flwyddyn flaenorol ac yn adlewyrchu'r amhariad yn sgil cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol Covid-19. Mae'r ffigwr - er ei fod yn dangos gwelliant - yn parhau'n is na'r 5,990,000 o ymwelwyr â Sir Ddinbych yn 2018. Caiff data ei gyhoeddi yn y cyfnod dilynol bob amser a bydd data newydd yn cael ei ddadansoddi yn ein hadroddiad diweddaru perfformiad nesaf ar gyfer mis Gorffennaf-Medi.

Cafodd £44,224 o incwm ei gynhyrchu ar draws safleoedd Carchar Rhuthun a Nant Clwyd y Dre yn 2019-2020. Roedd yr incwm yn sylweddol is yn ystod 2022-2023, sef £12,861, gan fod Carchar Rhuthun ar gau i ymwelwyr wrth i waith atgyweirio gael ei wneud yn dilyn difrod sylweddol gan lifogydd i'r safle. Ein nod yw gweld cynnydd o rhwng 2-3% o incwm yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn. Mae'r nod hwn yn berthnasol i'n ffigyrau o 2023-2024 ymlaen, gan ddefnyddio incwm 2019-2020 fel llinell sylfaen.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant (er enghraifft, ein haddewid i fod yn agos at ein cymunedau), gweler ein thema Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y staff sydd wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022-2023 | 73% Blaenoriaeth i Wella | 80.3% Derbyniol Gwell |
| Llinyn Mesur: Nifer y Crefftwyr yn Sir Ddinbych a gefnogwyd (DPA Contract HSDd) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | Dim data. | Dim data. | 55 (ffigwr blynyddol) Rhagorol | 30 Rhagorol |

### Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2019 - 2023

| Teitl | 2019 - 2020 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Incwm treftadaeth a gynhyrchwyd dros y flwyddyn (£) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 44,224 Cyfrif yn Unig | 12,861 Cyfrif yn Unig |

**Data 2021 - 2023**

| **Teitl** | **2021 - 2022** | **2022 - 2023** |
|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy’n cytuno bod Sir Ddinbych yn sir lle mae’r Gymraeg yn iaith fyw, sy’n ffynnu -**wedi’i feincnodi’n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 54.74% Derbyniol |
| Canran y budd-ddeiliaid sy’n cytuno bod treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac asedau naturiol Sir Ddinbych yn cael eu defnyddio i’w llawn botensial - **wedi’i feincnodi’n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 44.01% Blaenoriaeth i Wella |
| Nifer y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg (3 oed neu hŷn) - **wedi’i feincnodi’n genedlaethol** | 35,900 Derbyniol Gwell | 35,000 Gwaeth Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y disgyblion blwyddyn 1 sy’n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg - **Cyfrif yn Unig** | 27% | 27.4% Aros am y trothwyon |
| STEAM - Nifer y twristiaid sy’n ymweld â Sir Ddinbych - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 4,350,000 Derbyniol Gwell | Aros am ddata. Disgwylir ym mis Gorffennaf 2023 |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae’r thema hon yn cynnwys 20 o brosiectau a gweithgareddau. Nid yw 6 ohonynt wedi dechrau eto ac mae’r rhain ar gamau amrywiol (o’r briff prosiect i achos busnes); mae 9 ohonynt ‘Ar y trywydd iawn’ ac mae dau ohonynt yn ‘Profi Rhwystrau’. Mae Prosiect Archifau ar y cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn parhau ‘Mewn Perygl’. Mae’r statws ‘Mewn Perygl’ ar y sail nad oes cyllid wedi’i sicrhau eto ac felly nid oes cyllid ar gael i symud ymlaen fel y bwriadwyd gyda’r datrysiad llety a’r cynllun gweithgaredd. Yn amodol ar gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Cabinet, sydd hefyd bellach yn dymuno adolygu dewisiadau amgen yn Sir Ddinbych (mae Cabinet Cyngor Sir y Fflint wedi cymeradwyo’r prosiect yn yr Wyddgrug), cyflwynir cais am gyllid i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (cyllid grantiau cyfalaf Cymru) ym mis Tachwedd 2023, a dylai’r canlyniad fod yn hysbys o fewn tua phedwar mis. Yn y cyfamser, bydd y ddau wasanaeth archifau yn parhau i gydweithio a datblygu’r gwasanaeth o dan frand Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru.

Mae ein haddewid i ‘Ddatblygu strategaeth ddiwylliannol a threftadaeth a rhaglen o ddigwyddiadau’ wedi’i gohirio ac mae angen ei datblygu er mwyn ystyried y ffordd orau o gyflawni’r addewid.

Mae’r gwaith o gyflwyno Strategaeth y Gymraeg 2023-2028 i hybu a chynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn y sir a darparu gwasanaethau, llunio polisïau a safonau gweithredu’r Polisi Iaith Gymraeg bellach wedi dechrau yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet ar 27 Mehefin 2023. Mae’r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod ni’n cyflwyno’r Strategaeth a’r Polisi wedi cael eu hychwanegu at ein cynlluniau busnes gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn a bydd y broses o gyflwyno’r Strategaeth a’r Polisi yn cael ei monitro’n agos gan y Pwyllgor Llywio’r Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Mae teitl y gweithgaredd “Datblygu trefniadau llywodraethu mewnol ac allanol Cyngor Sir Ddinbych ar y cynnig sy’n dod i’r amlwg gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru” wedi’i newid i “Gweithio â phartneriaid ar ddynodiad Parc Cenedlaethol arfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru”. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu’r broses ddynodi ac mae’r Cyngor wedi bod yn rhan o ymgynghoriad cychwynnol. Anfonwyd nodyn briffio at bob Aelod ddiwedd mis Mehefin. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ym mis Hydref 2023.

Mae rhai Prosiectau Ffyniant Bro yn fyw ac mae eraill yn cael eu datblygu. Nid yw unrhyw un o brosiectau Gorllewin Clwyd yn fyw eto; mae’r rhan fwyaf naill ai ar y cam briff prosiect neu’r cam achos busnes a bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu yn y cyfnod nesaf. Mae briffiau prosiect Gorllewin Clwyd yn parhau i gael eu datblygu. Er nad yw’r gwaith corfforol wedi dechrau eto, mae gwaith ar y gweill i gaffael ymgynghorwyr a thimau cynllunio, a bydd cyfarfodydd ymgysylltu â’r cyhoedd yn dechrau yn yr hydref. Disgwylir i’r gwaith adeiladu, yn amodol ar ganlyniadau ymgynghoriadau ac arolygon ecoleg ac ati, ddechrau rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. Mae prosiectau Rownd 1 De Clwyd ar y gweill. Mae’r prosiect ym Mhlas Newydd, Llangollen: ‘Gwella profiad ymwelwyr, gan gynnwys gwneud gwelliannau i’r tir’ wedi dechrau. Cynhelir cyfnod caffael prosiect Rhaeadr y Bedol rhwng mis Medi a mis Tachwedd.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| **Teitl** | **Statws** | **Eithriadau** |
|---|---|---|
| Gweithredu'r CSCA i gefnogi miliwn o siaradwyr erbyn 2050 | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Darparu Strategaeth y Gymraeg 2023-2028 i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Darparu gwasanaethau, llunio polisïau a safonau gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR**: Datblygu strategaeth ddiwylliannol a threftadaeth a rhaglen o ddigwyddiadau* | *Wedi'i ohirio* | *I'w ddatblygu yn ystod 2023-2024.* |
| Prosiect Archifau ar y Cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae'r statws 'Mewn Perygl' yn adlewyrchu nad oes cyllid wedi'i sicrhau eto ac felly nid oes cyllid ar gael i symud ymlaen fel y bwriadwyd gyda'r datrysiad llety a'r cynllun gweithgaredd. |
| Datblygu cam 1 Castell Bodelwyddan fel Parc Gwledig a phorth i Sir Ddinbych | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Mae £900,000 o gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i sicrhau ar gyfer cyflawni rhan o'r prosiect. Mae gwaith paratoi gan gynnwys cael caniatâd cynllunio ar y gweill ar hyn o bryd a'r dyddiad cwblhau yw mis Rhagfyr 2024. |
| Datblygu a darparu Cynllun i'r Dyfodol ar gyfer Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych 2023-2026 | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Datblygu a darparu'r Cynllun Llysgennad yn Sir Ddinbych ac ar draws Cymru mewn partneriaeth | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | |
| Gweithredu Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Llyfrgelloedd Sir Ddinbych | Wedi'i ohirio | Nid yw Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi eto. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Datblygu trefniadau llywodraethu mewnol ac allanol Cyngor Sir Ddinbych ar y cynnig sy'n dod i'r amlwg gan CNC ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru | Wedi'i gwblhau | Mae trafodaethau wedi'u cynnal â CNC. Mae'r gwaith bellach wedi'i gynnwys mewn cynllun gwasanaeth newydd ac yn cael ei fonitro o dan y gweithgaredd canlynol "Gweithio â phartneriaid ar ddynodiad Parc Cenedlaethol arfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru". |
| Gweithio â phartneriaid ar ddynodiad Parc Cenedlaethol arfaethedig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Ceisio dynodiad Cymuned Awyr Dywyll ar gyfer yr AHNE | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Cefnogi a gweithredu'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol | Ar y trywydd iawn<br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Datblygu Strategaeth Lyfrgelloedd newydd ar gyfer Sir Ddinbych, yn adlewyrchu blaenoriaethau ac uchelgeisiau Cynllun Corfforaethol CSDd a Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru. | Profi Rhwystrau | Aros am gyhoeddiad Strategaeth Ddiwylliant Llywodraeth Cymru. |
| Plas Newydd, Llangollen: Gwella profiad ymwelwyr, gan gynnwys gwneud gwelliannau i'r tir (Rownd 1 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Rhaeadr y Bedol (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Tŵr Cloc Rhuthun: Adnewyddu nodweddion allanol Tŵr Cloc Rhuthun (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Bydd cyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn dechrau yn yr hydref, a disgwylir i'r gwaith ddechrau rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. |
| Carchar Rhuthun/ 46 Stryd Clwyd, Rhuthun: Adnewyddu eiddo gan gynnwys mynedfa newydd a chyfleusterau | Ar y cam briff prosiect | Bydd cyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn dechrau yn yr hydref, a disgwylir i'r gwaith |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| cyhoeddus gwell (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | | ddechrau rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. |
| Nant Clwyd-y-Dre, Rhuthun: Adnewyddu’r adeilad rhestredig Gradd 1 (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Bydd cyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn dechrau yn yr hydref, a disgwylir i’r gwaith ddechrau rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. |
| Cae Ddôl, Rhuthun:  Uwchraddio’r parth cyhoeddus a chysylltu â’r thema treftadaeth (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Ar y cam briff prosiect | Bydd cyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn dechrau yn yr hydref, a disgwylir i’r gwaith ddechrau rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2024. |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a’r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r thema hon:

Cafodd cyfres o baneli dehongli newydd eu gosod ar hyd Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen ym mis Ebrill 2023, fel rhan o brosiect i ymgysylltu pobl â threftadaeth gyfoethog yr ardal. Mae prosiect Ein Tirlun Darluniadwy, cynllun partneriaeth a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, wedi bod yn gweithio â phartneriaid o AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Glandŵr Cymru i ddatblygu’r byrddau dehongli.

Mae nifer o brosiectau wedi’u cwblhau yn Sir Ddinbych i gefnogi i cymunedau gyda chynnal digwyddiadau mwy cynaliadwy a chost-effeithiol yn eu hardaloedd lleol. Disgwylir y bydd rhagor o brosiectau wedi’u cwblhau erbyn mis Tachwedd 2023.

Cafodd Carchar Rhuthun ei ailagor yn swyddogol ym mis Ebrill ar ôl dwy flynedd o waith adfer yn dilyn llifogydd. Mae’r gwaith adfer yn cynnwys llawer o ychwanegiadau newydd cyffrous i ymwelwyr eu harchwilio, gan gynnwys cell newydd, yn arbennig ar gyfer rhannu stori’r carcharorion a gafodd eu hanfon i Awstralia o Garchar Rhuthun. Ar ôl ailagor, bu i’r Carchar groesawu dros 1400 o ymwelwyr ym mis Ebrill yn unig; dwbl y ffigyrau ym mis Ebrill 2019. Daeth digwyddiadau’r Pasg i ben wrth i’r Carchar gynnal Marchnad Artisan Rhuthun ar ei safle.

Daeth Mike Parker, yr awdur poblogaidd sydd wedi ennill gwobrau draw i Lyfrgell Prestatyn i siarad am ei lyfr diweddaraf, ‘All the Wide Border: Wales, England and the

places between’. Croesawodd Llyfrgell Llangollen dair awdures boblogaidd arall ym mis Mai; bu’r tair, Norma Curtis, Trisha Ashley a Juliet Greenwood, yn siarad am eu nofelau diweddaraf a’r hyn sy’n eu hysbrydoli nhw i ysgrifennu. Cynhaliwyd Noson Farddoniaeth rhad ac am ddim dan arweiniad y bardd a’r awdur Pat Sumner yn Llyfrgell Rhuthun ym mis Mehefin, er mwyn arddangos talentau beirdd lleol, fel rhan o Ŵyl Rhuthun. Mae’r digwyddiadau hyn yn dathlu ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd codi proffil awduron a beirdd o Gymru, yn arbennig y rhai sy’n archwilio ein tirwedd, ein diwylliant a’n hiaith.

Cyn Coroni’r Brenin ym mis Mai, cynhaliwyd rhywfaint o gystadlaethau brenhinol cyffrous er mwyn dod â chymuned yr ysgol at ei gilydd yn Sir Ddinbych. Un o’r cystadlaethau oedd dylunio baner ar gyfer Coroni Brenin Charles III.

Mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn cynnig mynediad rhad ac am ddim at wasanaethau Find My Past ac Ancestry, gan roi cyfle i aelodau llyfrgelloedd ymchwilio i’w gorffennol a chefndir teuluol a chlywed storïau'r cenedlaethau a fu. Mae’n hawdd defnyddio’r ddau wasanaeth ar un o gyfrifiaduron y llyfrgell a dim ond cerdyn llyfrgell a rhif PIN sydd ei angen er mwyn dechrau arni. Mae’r llyfrgelloedd hefyd yn cynnal cyfarfodydd gan grwpiau hanes lleol, lansio llyfrau a sgyrsiau, ac mae digon o ddigwyddiadau i ddifyrru teuluoedd dros yr hanner tymor.

Derbyniodd Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (AGDdC), gwasanaeth sy’n cael ei redeg ar y cyd gan Gynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych Achrediad Gwasanaeth Archifau. Mae Achrediad Archifau yn safon ansawdd y Deyrnas Unedig sy’n cydnabod perfformiad da ym mhob maes o ddarparu gwasanaeth archifau. Mae derbyn achrediad yn dangos bod y gwasanaeth ar y cyd wedi cyrraedd safonau cenedlaethol a ddiffinnir yn glir mewn perthynas ag iechyd sefydliadol, rheoli casgliadau a’r gwaith a wneir gyda budd-ddeiliaid.

Ym mis Ebrill, cymeradwyodd y Cabinet gais yn datgan diddordeb mewn cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ym mis Mehefin, cafodd plant a phobl ifanc Sir Ddinbych eu llongyfarch ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni gan y Cyngor. Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Llanymddyfri, Sir Gâr (rhwng 29 Mai a 3 Mehefin) a bu’n gyfle i bobl ifanc ledled Sir Ddinbych arddangos eu talentau.

Ym mis Mehefin, cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth y Gymraeg 2023-2028, sy’n ceisio hyrwyddo’r Gymraeg a hwyluso’r defnydd ohoni o fewn y sir. Mae’r Strategaeth yn cynnwys camau gweithredu pwysig pedair thema: plant a phobl ifanc, y gymuned, busnes a’r economi a gweinyddiaeth fewnol y Cyngor.

# Cyngor sy’n cael ei gynnal yn dda, ac sy’n uchel ei berfformiad

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Profi Rhwystrau

Fel yr eglurwyd yn ein hadroddiad diwethaf, rydym wedi cynnal trafodaethau i bennu’r set strategol gywir o linynnau mesur a gweithgareddau i’w monitro drwy’r adroddiadau perfformiad hyn. Fodd bynnag, mae yna dal rywfaint o waith i’w wneud cyn pennu set o ddangosyddion newydd ar gyfer prosiectau neu weithgareddau sydd heb ddechrau eto. Bydd y Bwrdd newydd yn hollbwysig o ran datblygu’r thema hon.

## Fframwaith Perfformiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

Mae’r thema hon yn cynnwys llawer o linynnau mesur blynyddol. Ceir sylwadau amdanynt yn ein hadroddiad diweddaru hunanasesu perfformiad mis Ionawr i fis Mawrth 2023-2024.

Rydym yn aros am ddata absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Mae rhai problemau technegol gyda dangosfyrddau absenoldeb salwch, ac maent yn cael eu datrys gan arbenigwyr TG. Ym mis Mawrth 2023, roedd absenoldeb salwch yn 9.8 diwrnod, yr un fath â’r cyfnod diwethaf, ac mae’n parhau fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Ym mis Mehefin 2023, roedd canran y staff a oedd yn gymwys am un neu dri chyfarfod un i un ac sydd wedi cael o leiaf un neu dri chyfarfod un i un yn ystod y 12 mis diwethaf yn 58%, sydd wedi gostwng o 61% yn y cyfnod diwethaf. Mae hwn yn gyfanswm treigl. Roedd canran y gweithwyr sydd wedi cwblhau pob un o’r 9 modiwl e-ddysgu gorfodol (ac eithrio ysgolion) yn 51% ym mis Mehefin 2023 (sy’n uwch na 49% yn y cyfnod diwethaf) ac mae’n ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru), ac ni chafwyd unrhyw adroddiadau sicrwydd isel yn y cyfnod hwn gan Archwilio Mewnol. Cafodd yr adroddiad yn dilyn yr Adolygiad ar y cyd gan yr Arolygiaeth o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) a gynhaliwyd yn Sir Ddinbych ym mis Chwefror 2023, a oedd yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn, ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Mae’r adroddiad yn nodi, fel yn achos sawl ardal ledled Cymru, bod yr heriau o ran recriwtio a chadw staff ar draws asiantaethau allweddol yn Sir Ddinbych yn effeithio ar

drefniadau diogelu plant. Ond, er hyn, yn gyffredinol, mae’r adroddiad yn nodi bod systemau a pherthnasoedd ar waith i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol pan fydd plentyn mewn perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod, a bod partneriaid yn gweithio tuag at rannu ethos am ddiogelu plant ar wahanol lefelau o ddiamddiffynnedd. Fodd bynnag, cesglir bod yna feysydd amddiffyn plant sy’n anghyson ac angen sylw. Cyflwynir yr adroddiad i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel Rhan 2 eitem gyfrinachol ym mis Medi 2023.

Roedd dau brosiect na chafodd eu diweddaru yn ystod y cyfnod adrodd rhwng mis Mai a mis Mehefin, sef ‘Mae Pobl yn cael eu cynnwys wrth lunio a gwella gwasanaethau’ (daeth y prosiect i ben ym mis Gorffennaf 2023) a Gwella Effeithlonrwydd Ynni Tai’r Cyngor (sydd ‘Mewn Perygl’, diweddarwyd 1 Mawrth 2023). Cwblhawyd diweddariadau ar gyfer 96% o brosiectau. Mae hyn yn welliant o 1.9% ers y cyfnod adrodd diwethaf. Ni chafodd unrhyw brosiect ei nodi ‘Dan Fygythiad’.

Roedd cyfanswm o 20 risg ar ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol ym mis Chwefror 2023, ac roedd 11 ohonynt yn anghyson â’n parodrwydd i dderbyn risg (55%). Caiff hyn ei ystyried fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Mae ein hadolygiad nesaf o’r gofrestr wedi’i drefnu ar gyfer mis Medi 2023.

Cafodd bron i hanner (48.3%) o holl linynnau mesur y Cynllun Corfforaethol eu nodi fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’ rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, sy’n cael ei ystyried yn ‘Dderbyniol’.

Roedd ein llinyn mesur ar amrywiant y gyllideb ar gyfer y cyfnod hwn (h.y. yr hyn sydd gennym a’r hyn rydym yn ei dderbyn yn erbyn yr hyn rydym yn ei wario) yn £3.348 miliwn. Roedd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn parhau yn £5.531 miliwn.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, rydym wedi dechrau monitro’r gwariant sefyllfa refeniw derfynol fesul pen o’r boblogaeth, ac rydym yn ei feincnodi’n genedlaethol. Roedd y gwariant sefyllfa refeniw derfynol fesul pen o’r boblogaeth yn Sir Ddinbych yn £2,913.25 yn 2021-2022. Mae angen i ni gytuno ar ein methodoleg ar gyfer pennu beth yw rhagoriaeth. Ar sail ein dull arferol, lle caiff rhagoriaeth ei bennu trwy gyfrifo’r canolrif ar draws Cymru - a oedd yn £2,669.31 yn 2021-2022 - byddai ein perfformiad yn cael ei ystyried fel ‘Blaenoriaeth ar gyfer Gwella’ a’r ail uchaf o gymharu â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, dyma un llinyn mesur bras a allai sicrhau cael ei archwilio ochr yn ochr â chyfraddau treth y Cyngor, er enghraifft. Er hynny, mae’n cynnig cip ar

drafodaeth ynghylch gwerth am arian, sy'n un o'r addewidion o fewn y thema hon; addewid y mae angen ei ddatblygu ymhellach.

Am ragor o wybodaeth am berfformiad mewn perthynas â chaffael (gwariant y Cyngor gyda chyflenwyr lleol a chontractau yn cynnwys buddion cymunedol), gweler ein thema Sir Ddinbych Ffyniannus. Ni ddyfarnwyd unrhyw weithgareddau caffael cydweithredol yn ystod y cyfnod hwn, a chafodd un cyfle caffael cydweithredol ei fethu.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (fel cyfran o bob stori newyddion am y Cyngor) wedi gostwng o 14% i 12.5% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023, ac mae'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.  Mae canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi gostwng unwaith eto, o 42% i 29%. Mae hyn yn cynrychioli 17 o'r 58 o gwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol ac a ystyrir yn 'Dda'.

Mae 'nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y chwarter' wedi'i ddileu, ond bydd yn parhau i gael ei fonitro trwy'r Cynllun Gwasanaeth: Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol Pobl.

Am ragor o linynnau mesur a gweithgareddau sy'n cefnogi caffael a buddion cymunedol, gweler ein thema Sir Ddinbych ffyniannus.

### Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran llinynnau mesur y Cynllun Corfforaethol sydd wedi'u nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 51% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 51% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | Dim data: nid yw'n berthnasol | 49.5% Derbyniol Gwell | 48.3% Derbyniol Gwell |
| Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiectau sydd 'Dan Fygythiad' – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 1 Da Yr un fath | 2 Derbyniol Gwaeth | 1 Da Gwell | 1 Da Yr un fath | 0 Rhagorol Gwell |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddaru yn y tri mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 95% Da Gwaeth | 100% Rhagorol Gwell | 95% Da Gwaeth | 96% Da Wedi gwella | 96% Da Yr un fath |
| Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data: nid yw'n berthnasol | 55% Blaenoriaeth i Wella Gwell | Dim data: nid yw'n berthnasol | 55% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | Dim data: nid yw'n berthnasol |
| Nifer cronnus yr adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0 | 0 Rhagorol Yr un fath | 0 Rhagorol Yr un fath | 0 Rhagorol Yr un fath |
| Nifer cronnus yr adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, yn y flwyddyn ariannol hyd yma - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0 | 0 Rhagorol Yr un fath | 0 Rhagorol Yr un fath | 0 Rhagorol Yr un fath |
| Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k) – **Cyfrif yn Unig** | 1,109 | 2,661 | 2,189 | 1,585 | 3,348 |
| Arian wrth gefn y Cyngor (£k) – **Cyfrif yn Unig** | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 5,531 | 5,531 |
| Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y Cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 10% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 11% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 12% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 14% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 12.5% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf **wedi'i feincnodi'n lleol** | 46% Da Gwell | 67% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 53% Derbyniol Gwell | 42% Da Gwell | 29% Rhagorol Gwell |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr Aelodau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Cod Ymddygiad – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023-2024 | 100<br>Rhagorol |
| Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10.18<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 10<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth | 9.8<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 9.8<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | Aros am ddata. Mae problemau technegol yn cael eu datrys. |
| Canran y staff sy'n gymwys am un neu dri chyfarfod un i un ac sydd wedi cael o leiaf un neu dri chyfarfod un i un yn ystod y 12 mis diwethaf (fesul person) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 45%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 52%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 53%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 61%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 58%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y staff y mae gennym wybodaeth monitro cydraddoldeb ar eu cyfer – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 51.4%<br>Da<br>Gwaeth | 76%<br>Rhagorol<br>Gwell | 72%<br>Rhagorol<br>Gwaeth | 71.5%<br>Rhagorol<br>Gwaeth | 67%<br>Rhagorol<br>Gwaeth |
| Canran y gweithwyr sydd wedi cwblhau pob un o'r 9 modiwl e-ddysgu gorfodol erbyn diwedd y flwyddyn (ac eithrio ysgolion) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. | Dim data. | Dim data. | 49%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 51%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Nifer y gweithgareddau caffael ar hyn o bryd – **Cyfrif yn Unig** | 5 | 2 | 1 | 2 | 0 |

| Teitl | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 | Chwarter 1 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithgareddau caffael a fethwyd – **Cyfrif yn Unig** | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 |

**Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

**Data 2019 - 2022**

| Teitl | 2019 - 2020 | 2020 - 2021 | 2021 - 2022 |
|---|---|---|---|
| Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu rhywedd - **Cyfrif yn Unig** | 15% | 4% | 21% |

**Data 2021 - 2023**

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr i ferched – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 6.7% Derbyniol | -13.4% Rhagorol Gwell |
| Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 79.3% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 80.7% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |
| Canran presenoldeb aelodau etholedig (cyfredol ac a ddisgwylir) yn y flwyddyn hyd yma - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 89% | 84% Da Gwaeth |
| Canran y gweithwyr sy'n gadael Sir Ddinbych, fel canran o'r gweithlu cyfan (ac eithrio ysgolion) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10.6% Da Gwaeth | 12.4% Derbyniol Gwaeth |
| Canran y gweithwyr sy'n gadael Sir Ddinbych fel canran o'r gweithlu cyfan (yn cynnwys ysgolion) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10.2% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth | 11.7% Blaenoriaeth i Wella Gwaeth |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn dryloyw, yn cael ei gynnal yn dda ac yn uchel ei berfformiad – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 40.69%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 62%<br>Da | 41.26%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod perthynas waith dda rhwng arweinwyr gwleidyddol ac uwch reolwyr – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 63%<br>Da | 29%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 28%<br>Blaenoriaeth i Wella | 42.53%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn rheoli ei risgiau a'i heriau yn dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 30%<br>Blaenoriaeth i Wella | 41.47%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 26%<br>Blaenoriaeth i Wella | 37.41%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod gan y Cyngor gynlluniau hirdymor effeithiol yn eu lle – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 31%<br>Blaenoriaeth i Wella | 37.59%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn trin ei weithlu'n dda – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 35%<br>Blaenoriaeth i Wella | 48.27%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau a'i adnoddau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 20%<br>Blaenoriaeth i Wella | 27.95%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

| Teitl | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 |
|---|---|---|
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn modd effeithlon a theg – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 25% Blaenoriaeth i Wella | 28.47% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn gweithredu ar bryderon preswylwyr – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 38.62% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod y Cyngor yn trin pawb yn deg – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 42.39% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y budd-ddeiliaid sy'n cytuno bod Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau'r Cyngor yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022-2023 | 37.3% Blaenoriaeth i Wella |
| Gwariant sefyllfa refeniw derfynol fesul pen o'r boblogaeth (£) - **Cyfrif yn Unig** | 2,913.25 Aros am y trothwyon | Aros am ddata. Ar gael ym mis Hydref 2023 |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiectau

Bydd y Bwrdd newydd, Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad, a fydd yn goruchwylio'r thema hon, yn cael ei sefydlu ym mis Hydref 2023. Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer datblygu pum addewid y thema, sy'n cyd-fynd â phum egwyddor y Cyngor, i sicrhau eglurder a chysondeb ac er mwyn creu rhagor o fesuryddion perfformiad ystyrlon. Mae'r gweithgaredd a awgrymir i lunio cynlluniau gweithredu yn dilyn y pum grŵp tasg a gorffen dan arweiniad staff wedi dod i ben a bydd yn llywio gwaith y Bwrdd newydd hwn.

Ar hyn o bryd, mae 9 gweithgaredd 'Ar y trywydd iawn', 3 yn 'Profi Rhwystrau', 1 'Mewn Perygl', 2 wedi dod i ben ac mae disgwyl i'r 6 sy'n weddill ddechrau rhwng 2023 a 2024.

Mae llinyn mesur a gweithgaredd i hybu a galluogi llwybrau gyrfa, lle bo modd, i gefnogi cynnydd a datblygiad y gweithlu wedi dod i ben. Mae galluogi llwybrau gyrfa yn rhan annatod o fusnes fel arfer ac nid oes angen unrhyw waith ychwanegol.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| **Teitl** | **Statws** | **Eithriadau** |
|---|---|---|
| Paratoi ar gyfer Adolygiad gan Gymheiriaid ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR:*** *Darparu cynlluniau gweithredu a nodwyd gan y pum grŵp tasg a gorffen dan arweiniad staff* | Wedi'i orffen | Bydd y camau gweithredu o'r pum grŵp tasg a gorffen a arweinir gan staff, sy'n cyd-fynd â phum egwyddor y Cyngor, yn llywio gwaith y Bwrdd newydd, Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad. Nid oes angen y cam gweithredu hwn mwyach. |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR:*** *Datblygu a lansio fframwaith gwasanaeth i gwsmeriaid newydd (yn gysylltiedig â'n Strategaeth y Gymraeg a'n Polisi Iaith Gymraeg)* | Wedi'i ohirio | Bydd y gweithgaredd a awgrymir yn cael ei ystyried gan y Bwrdd newydd ym mis Hydref 2023. |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR:*** *Caffael System Rheoli Cyswllt Cwsmer (CRM) corfforaethol newydd (amserlen 2025)* | Wedi'i ohirio | Bydd y gweithgaredd a awgrymir yn cael ei ystyried gan y Bwrdd newydd ym mis Hydref 2023 |
| Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o fis Gorffennaf 2023. |
| Datblygu Strategaeth Cydgynhyrchu (ar draws CSDd) | Heb ddechrau | Diweddariad ar gael o fis Hydref 2023. |
| Diweddaru'r strategaeth gaffael (i fod yn brosiect newydd: Gweithredu'r strategaeth gaffael newydd i gyflawni datgarboneiddio ac egwyddorion Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | Ar y trywydd iawn<br>Gwell | Dim eithriad |
| Datblygu a sicrhau bod y Grŵp Rheoli Asedau yn mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau newydd | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | Bydd y cynllun portffolio diwygiedig cyntaf yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli Asedau ym mis Medi. Bydd cynlluniau portffolio yn llywio datblygiad y Strategaeth Rheoli Asedau |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| | | newydd. Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn edrych ar swyddfeydd ystadau'r Cyngor h.y. beth sydd ei angen ac ymhle, fel rhan o'r prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio. |
| Datblygu a chyflawni cynlluniau portffolio i bennu siâp, maint a defnydd asedau yn y dyfodol ar gyfer pob un o bortffolios rheoli asedau'r Cyngor | Profi Rhwystrau<br><br>Yr un fath | Mae gwaith wedi dechrau ar y cynlluniau portffolio sy'n weddill a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli Asedau dros weddill y flwyddyn. |
| Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithlu Corfforaethol 2022 i 2027 | Heb ddechrau | Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod 2023-2024. |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMUR:*** *Sicrhau bod gwerth am arian yn rhan greiddiol o ddiwylliant ein sefydliad, a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gytbwys drwy ystyried ansawdd gwasanaeth a gwerth cymdeithasol.* | Wedi'i ohirio | Bydd y gweithgaredd a awgrymir yn cael ei ystyried gan y Bwrdd newydd ym mis Hydref 2023. |
| Sefydlu'r Grŵp Cyswllt Moesegol | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Diweddaru Cod Ymddygiad yr Aelodau, i gynnwys amserlen y disgwylir i'r Aelodau gadw ati o ran cwblhau hyfforddiant Cod Ymarfer | Mewn Perygl | Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn hydref 2023. |
| Datblygu fframwaith i arwain cynghorwyr ar sut i ymdrin ag aflonyddwch, camdriniaeth a bygythiadau | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Gweithredu gofynion newydd Deddf Etholiadau'r DU 2022 a diwygiadau etholiadol eraill | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben yn dilyn newidiadau a wnaed yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Ar y trywydd iawn | Dim eithriad |
| Codi ymwybyddiaeth am faterion iechyd meddwl ar draws y Cyngor drwy gyflwyno ac ymgorffori cynllun gweithredu Amser i Newid | Ar y trywydd iawn<br><br>Gwell | Dim eithriad |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Ymgorffori'r polisi gweithio ystwyth newydd a chefnogi unrhyw anghenion dysgu a datblygu ohono | Ar y trywydd iawn<br><br>Yr un fath | Dim eithriad |
| Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol | Profi Rhwystrau<br><br>Yr un fath | Cynhelir gweithgaredd casglu data cyn diwedd 2023 er mwyn sicrhau bod gennym gymaint o ddata â phosibl ar y Systemau Adnoddau Dynol. |
| Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Gweithlu Corfforaethol | Wedi'i orffen | Dyma ddyblygiad o'r gweithgaredd uchod "Cynnal Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithlu Corfforaethol 2022 i 2027" uchod. |
| Cyflawni cynllun gweithredu'r Grŵp Gweithredol Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol | Ar y trywydd iawn<br><br>Gwell | Dim eithriad |

## Hunanasesiad:  Meysydd Llywodraethu

Mae ein saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunanasesiad wedi'u hamlinellu isod ac yn ceisio rhoi darlun o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym yn gwybod hynny (gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo modd), a sut gallwn wella. Mae ein crynodebau newyddion wedi'u cynnwys yn yr holl adrannau llywodraethu.

## Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae Cynllunio Corfforaethol yn ymwneud â sut mae'r Cyngor yn gosod amcanion strategol ac yn gwneud trefniadau i'w cyflawni.

### Trefniadau Llywodraethu'r Cynllun Corfforaethol

Yn ystod y cyfnod hwn, mae llawer o waith wedi'i wneud i ddatblygu a chytuno ar y trefniadau llywodraethu terfynol ar gyfer themâu gwaith y Cynllun Corfforaethol newydd. Cynhaliwyd sesiwn gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet ar 25 Ebrill er mwyn cytuno ar rai egwyddorion allweddol, trafod cynigion ar gyfer y Byrddau newydd lle roeddent yn credu bod angen gwneud hynny, a chytuno ar arweinwyr strategol i fod yn

gyfrifol amdanynt. Bydd y trefniadau terfynol yn cael eu rhannu â'r Cyngor Sir ym mis Gorffennaf.

### Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Yn ystod y cyfnod hwn, cadarnhawyd bod dau uwch arweinydd wedi'u penodi, sef Ann Lloyd fel Pennaeth newydd Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd; a Paul Jackson fel Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. Cynhelir rhagor o baneli penodi ar gyfer swyddi'r Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl a Phennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau ym mis Gorffennaf. Yn ogystal, bydd angen recriwtio Pennaeth Cyllid ac Archwilio newydd yn ystod y cyfnod hwn. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r strwythur newydd, ewch i'n gwefan.

### Cytuno a gweithredu dull cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio

Yn dilyn ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes sydd bellach yn gyfrifol am y prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio. Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn edrych ar swyddfeydd ystadau'r Cyngor h.y. beth sydd ei angen ac ymhle.

### Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) bellach wedi rhannu eu model ar gyfer Asesiadau Perfformiad Panel â'r Cyngor. Cafodd ei rannu â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ar 26 Mehefin. Yn dilyn trafodaethau mewn sesiwn friffio â'r Cabinet ym mis Gorffennaf, trafodir papur yn amlinellu'r newidiadau angenrheidiol i'r cyfansoddiad er mwyn cymhwyso'r trefniadau newydd ar gyfer yr Asesiad Perfformiad Panel yn cael ei drafod â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi, ac yn olaf, caiff ei rannu â'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo ym mis Tachwedd. Mae hyn gyda'r bwriad o gynnal ein Hasesiad Panel cyntaf yn ystod haf 2024.

## Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae cynllunio ariannol yn ymwneud â rheoli ein hincwm a gwariant.

## Adroddiadau Diweddaru Cyllid

Yng nghyfarfod mis Mai, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar y sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2022-2023. Cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol honno oedd £233.696 miliwn. Mae'r sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys gorwariant o £3.509 miliwn gan ysgolion) yn orwariant o £5.095 miliwn. Heb gynnwys ysgolion, sy'n cael eu hystyried ar wahân, y sefyllfa oedd gorwariant o £1.585 miliwn. Cafodd gwerth £1.604 miliwn o gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi eu defnyddio i ariannu'r gorwariant hwn, i dalu'r diffyg o £0.019 miliwn wrth gasglu Treth y Cyngor. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad o £5.531 miliwn yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor, sy'n uwch na'r trothwy o £5 miliwn, sy'n cael ei hystyried fel lefel ddarbodus i ymdopi â phwysau ariannol na ellir ei ragweld. Roedd sefyllfa balansau ysgolion yn well na'r disgwyl, a defnyddiwyd £3.509 miliwn o arian wrth gefn (gan adael balans o £8.939 miliwn) i fynd i'r afael â'r gorwariant. Gan ystyried cyllid ac ysgolion, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn orwariant o £5.114 miliwn. Yng nghyllideb 2022-2023 roedd gofyn dod o hyd i arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £0.754 miliwn a chymerir bod y rhain wedi eu cyflawni.

Ym mis Mehefin, cyflwynwyd adroddiad cyllid i'r Cabinet, yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb (hyd at ddiwedd mis Mai). Nodwyd bod yr Adroddiad Crynhoi'r Gyllideb llawn ar gyfer 2023-2024 wedi cael ei ohirio ac y byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfodydd y Cabinet yn y dyfodol. Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023-2024 oedd £250.793 miliwn (sy'n uwch na £233.696 miliwn yn 2022-2023). Rhagwelwyd gorwariant o £3.348 miliwn ar sefyllfa cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol**.** Yng nghyllideb 2023-2024, roedd gofyn dod o hyd i arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £8.172 miliwn a chymerir bod y rhain wedi eu cyflawni. Ar ddiwedd mis Mai, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £250.143 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.18%. Roedd y balansau buddsoddi yn £13 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.38%.

Yn yr adroddiad, cafodd y gyllideb ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant ei nodi fel maes pryder, gan fod y gwariant a ragwelwyd yn £1.6 miliwn oherwydd pwysau ym maes gofal cymdeithasol plant. Roedd cyllideb Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Digartrefedd hefyd yn parhau'n faes risg uchel; roedd y sefyllfa derfynol a ragwelir yn £1.664 miliwn oherwydd pwysau o ran costau lleoliadau (£1.5 miliwn) a digartrefedd (£0.2 miliwn). Ar gyfer ysgolion, roedd y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar gyfer 2023-2024 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o £3.03 miliwn yng

nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru). Y cyfnod monitro cyntaf ar gyfer ysgolion yw diwedd mis Mehefin pan fydd yr adroddiadau monitro manwl yn cael eu cyflwyno. Rhagwelwyd yn yr adroddiad y byddai Cyllidebau Corfforaethol yn adennill costau, ond fe amlygwyd risgiau yn ymwneud â setliadau cyflog, ynni a phwysau chwyddiant eraill fel rhai sydd angen eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf gan ei bod hi'n anodd eu mesur a hithau'n gynnar yn y flwyddyn.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio gostyngiad o £818,000 mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £922,000 pan gafodd y gyllideb ei chymeradwyo. Roedd hyn yn ymwneud â gostyngiad yn yr incwm rhenti a amcangyfrifwyd, a gaiff ei gydbwyso gan gyfraniad is i raglen gyfalaf y CRT. Rhagwelir felly y bydd balansau'r CRT yn £750,000 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb Cyfalaf o £19.5 miliwn yn adlewyrchu'r cyfraniad refeniw is.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o Gynllun Cyfalaf y Cyngor. Mae'r Cynllun Cyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2023-2024 yn £104.5 miliwn ac mae'r gwariant hyd yma'n £4.9 miliwn. Gyda chefnogaeth y Grŵp Craffu Cyfalaf, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet gynlluniau i gyfrannu £178,000 o gyllid cyfalaf i gefnogi Cynllun Grant Cartrefi Gweigion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru fel y gall eiddo gwag gael eu defnyddio unwaith eto. Nododd yr Aelodau hefyd y gorwariant o £186,000 a ragwelir ar gynllun cyfalaf Depo'r Gerddi Botanegol (cam 1) oherwydd oedi a chynnydd mewn costau deunyddiau. Nodwyd bod y cynllun ar fin cael ei orffen a bod y gorwariant i'w ariannu o'r gronfa wrth gefn gyffredinol o fewn y rhaglen gyfalaf, a oedd yn £764,000.

## Datganiad Cyfrifon

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifo a gymeradwyir. Fel yr adroddwyd yn yr adroddiad diweddaru perfformiad chwarterol diwethaf, cafodd problem dechnegol a oedd yn effeithio ar holl awdurdodau lleol Cymru ei datrys ym mis Rhagfyr 2022. Fodd bynnag, bu i ddau fater mwy penodol yn ymwneud â gwerth asedau tai cyngor, Cyngor Sir Ddinbych, achosi oedi pellach cyn cwblhau'r gwaith er mwyn i Archwilio Cymru gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2021 i 2022. Mae disgwyl i set derfynol o gyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer 2021-2022 gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cymeradwyo ym mis Medi 2023.

Mae drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2022-2023 ar y trywydd cywir i gael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac

Archwilio ym mis Medi er gwybodaeth. Ar ôl ymgynghori ag Archwilio Cymru, y bwriad ar hyn o bryd yw bod y cyfrifon a archwiliwyd yna'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddechrau 2024 i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

### Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys

Fe adroddwyd ar weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2022-2023 yn yr adroddiad diweddaru perfformiad diwethaf ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth 2023. Dangosodd Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) ar gyfer y blynyddoedd ariannol rhwng 2023 a 2026 sut y byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod terfynau ar weithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan gynnal cydbwysedd priodol rhwng risg ac enillion ac mae'r DSRhT yn amlinellu dull y Cyngor mewn perthynas â hyn.

### Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Broses y Gyllideb

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am broses y gyllideb i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan y Pennaeth Cyllid ac Archwilio. Rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf â'r aelodau am y rhagamcanion ariannol diwygiedig ar gyfer y cyfnod tair blynedd nes 31 Mawrth 2027. Trafodwyd y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hefyd gan y Cabinet ym mis Ebrill.

Roedd adroddiadau'r gyllideb yn nodi goblygiadau'r Setliad Llywodraeth Leol drafft ar gyfer 2023-2024, a oedd yn arwain at setliad cadarnhaol o 8.2% (o gymharu â chyfartaledd Cymru o 7.9%). Gan fod y setliad wedi creu £14.231 miliwn, a bod pwysau ariannol yn dod i £25.116 miliwn, cafodd diffyg o £10.885 miliwn ei nodi. Talwyd y diffyg hwnnw drwy gynyddu Treth y Cyngor o 3.8% (£2.713 miliwn), cyflawni arbedion corfforaethol unwaith yn unig (£6.095 miliwn), arbedion bach mewn gwasanaethau (£1.261 miliwn) ac 1% mewn arbedion ysgolion (£0.816 miliwn). Er nad oedd angen arian o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gyllideb ar gyfer 2023-2024, cafodd nifer o risgiau o ran costau ynni, codiadau cyflog a'r gwasanaethau hynny sydd wedi'i chael hi'n anodd yn y gorffennol i gadw at y cyllidebau a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn eu nodi fel meysydd pryder.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng 2024-2025, roedd y setliad drafft yn cynnwys cynnydd bychan yn y setliad cyfartalog mynegol o 3.0%. Mae'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol anodd iawn, gan nad yw erioed wedi profi cyfnod hir o chwyddiant uchel iawn cyn dod yn

ôl at setliad sylweddol is na chwyddiant, fel y disgwylir yn 2024-2025. Mae'r rhagamcanion a wnaed yn yr adroddiadau yn adlewyrchu'r ansicrwydd o ran y ffigyrau, gyda dull tair haen ar gyfer amcangyfrif pwysau. Mae amcangyfrifon lefel uchel yn gyfystyr â phwysau o £37 miliwn (o gymharu â £25 miliwn yn 2023-2024). Er mwyn diffinio maint y broblem, hyd yn oed gydag incwm o Grant Cynnal Refeniw o 3%, cynnydd yn Nhreth y Cyngor, yn ogystal ag arbedion a ffioedd uwch, mae'n debygol y bydd diffyg o £20 miliwn yn y gyllideb o leiaf.

Er mwyn lleihau'r gwariant net a ragwelir, mae nifer o feysydd allweddol wedi cael eu hystyried yn Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2024-2025. Bydd disgwyl i wasanaethau wneud arbedion effeithlonrwydd o 1%, yn ogystal â gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau. Mae disgwyl i ffioedd a thaliadau gynyddu, ac mae'n debygol y bydd angen rhoi ystyriaeth i lefel Treth y Cyngor. Bydd meddwl am syniadau i leihau meysydd o orwariant yn allweddol, ac fe anogir cyfranogiad cyffredinol budd-ddeiliaid, aelodau a staff yn gryf.

## Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae rheoli perfformiad yn cyfeirio at y strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud, wrth fynd ati i annog her a chyfranogiad gweithredol gan bob rhan o'r Cyngor, ein haelodau etholedig a phreswylwyr.

### Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Adolygiadau Archwilio a Chapasiti

Ym mis Ebrill, cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr adain Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Oherwydd swyddi gwag yn y tîm dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd nifer o adolygiadau eu gohirio a byddant bellach yn cael eu cynnal yn ystod 2023-2024. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod diwethaf hwn, mae pob swydd wag Archwilio Mewnol wedi'u llenwi bellach, a chafodd y swydd wag ddiwethaf ar gyfer Prif Archwilydd ei llenwi ym mis Mehefin. Mae trefniadau ar waith i gefnogi'r rhai a gyflogir ar Lwybr Graddfa Gyrfa.

Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ym mis Mehefin, cyflwynodd Prif Archwilydd Mewnol y Cyngor y Siarter a'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-2024, a rhoddodd ei farn gyffredinol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn, a fydd yn llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## Hunanasesiad o Berfformiad

Yn ystod y cyfnod olaf hwn, ac ar ddiwedd ein proses flynyddol barhaus ar gyfer Hunanasesu yn 2022-2023, lluniodd y Cyngor ei bedwerydd adroddiad diweddaru perfformiad (diwedd blwyddyn) ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Roedd hyn yn cynnwys Crynodeb Gweithredol a oedd yn dwyn casgliadau allweddol ynghyd o'n pedwar adroddiad diweddaru perfformiad a chafodd ei gyflwyno ar gyfer sylwadau gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet, y Pwyllgor Caffael a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cyn ei roi gerbron y Cyngor Sir i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf. Bydd y Camau Gwella a Nodwyd yn cael eu cymryd trwy Gynlluniau Gwasanaeth a, lle bo'n briodol, Byrddau'r Cynllun Corfforaethol neu arweinwyr strategol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro trwy ein hadroddiadau chwarterol. I gael gweld ein hadroddiadau terfynol, ewch i www.sirddinbych.gov.uk/perfformiad.

## Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Fframwaith Rheoli Perfformiad

Trwy lunio'r adroddiad hwn, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi parhau i weithio'n agos â Gwasanaethau i gynnwys Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol newydd, gan fynd i'r afael ag agweddau sydd angen eu datblygu o hyd ac unrhyw fylchau sydd i'w llenwi. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ond mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud, a dylai hynny barhau gyda phob adroddiad a gyflwynir, wrth i ddealltwriaeth o adrodd yn erbyn y fframwaith ddod yn fwy arferol.

## Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Canllaw Rheoli Perfformiad

Ar ôl cytuno ar drefniadau llywodraethu a Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol newydd, yn ogystal â gwneud newidiadau i strwythur yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, mae'n bryd adolygu Canllaw y Cyngor ar gyfer Gwella Gwasanaethau – y canllaw sy'n egluro dull y Cyngor o ran rheoli perfformiad. Mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud ar hyn drwy gydol yr haf, a dylai fod wedi'i orffen erbyn yr hydref.

## Arolwg Budd-ddeiliaid Blynyddol

Yn dilyn adrodd ar ganlyniadau'r Adroddiad Diweddaru Perfformiad diwedd blwyddyn diwethaf, mae swyddogion wedi cwrdd i adolygu'r gwersi a ddysgwyd o'r arolwg hyd yma, ac er mwyn cytuno ar ffordd ymlaen ar ei gyfer yn 2023-2024. Gobeithir y bydd yr arolwg yn cael ei lansio unwaith eto tuag at ddiwedd yr haf, tan fis Chwefror 2024. Yn y cyfamser, bydd adroddiad manwl ar y canlyniadau yn cael ei rannu ag uwch reolwyr ar gyfer llywio'r

gwaith o wella gwasanaethau. Bydd canlyniadau'r arolwg nesaf unwaith eto'n bwydo i mewn i'n hadroddiad Hunanasesu diwedd blwyddyn.

### Herio Perfformiad Gwasanaeth

Dechreuodd y Rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaethau ar gyfer 2023-2024 yn ystod y cyfnod hwn, gyda heriau'n cael eu gosod ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. Bydd y camau allweddol sy'n codi o'r trafodaethau hyn yn cael eu nodi ynghyd â'r Camau Gwella isod, a bydd cynnydd yn cael ei gofnodi mewn adroddiadau diweddaru perfformiad yn y dyfodol.

## Rheoli Risg

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae rheoli risg yn cyfeirio at y dull rydym wedi'i gynllunio ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r Cyngor.

### Cofrestr Risgiau Gorfforaethol

Roedd cyfanswm o 20 risg ar ein Cofrestr Risgiau Gorfforaethol ym mis Chwefror 2023, ac roedd 11 ohonynt yn anghyson â'n parodrwydd i dderbyn risg (55%). Caiff hyn ei ystyried fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Mae ein hadolygiad nesaf o'r gofrestr wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2023.

## Cynllunio'r Gweithlu

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Cynllunio'r gweithlu yw'r broses a ddefnyddir gennym i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw am weithwyr, ac asesu bylchau i sicrhau bod gennym y bobl a'r sgiliau - nawr ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol.

### Hyfforddiant, Datblygiad ac Iechyd Meddwl Staff

Mae'r gwaith o adolygu ein polisi a'n canllawiau gweithio'n hyblyg presennol wedi'i gwblhau ac mae'r Polisi Gweithio Ystwyth wedi'i gymeradwyo a'i gyhoeddi gan y Cabinet. Mae ymgyrch cyfathrebu a ategir gan ddeunyddiau a sesiynau sefydlu i gefnogi staff a rheolwyr â'r ffyrdd newydd o weithio ar waith, ac mae sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ar gyfer rheolwyr rhwng mis Gorffennaf a mis Medi.

Mae'r cynllun gweithredu Amser i Newid bron â chael ei gwblhau. Bydd yr Arbenigwr Dysgu a Datblygu sydd newydd ei benodi (ar gyfer goruchwylio a chyflwyno'r cynllun gweithredu iechyd meddwl) yn gweithio ochr yn ochr â Chefnogwyr Iechyd Meddwl, unwaith y byddant wedi'u dewis, i sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer iechyd meddwl a lles ar draws y Cyngor.

### Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol. Oherwydd newidiadau parhaus o ran staff, mae'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu ynglŷn â chydraddoldeb yn tueddu i amrywio. Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd gennym wybodaeth ynglŷn â chydraddoldeb ar gyfer 67% o'n staff, o gymharu â 71.5% ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae perfformiad wedi gwella'n fawr ers mis Mehefin 2022, lle'r oedd gennym wybodaeth ar gyfer 51.4% o staff. Cynhelir gweithgaredd casglu data cyn diwedd 2023 er mwyn sicrhau bod gennym gymaint o ddata â phosibl ar y Systemau Adnoddau Dynol.

### Cynllunio'r Gweithlu

Mae camau cynllunio'r gweithlu ar y gweill i symud ymlaen â chanfyddiadau adolygiadau cynllunio'r gweithlu ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth. Mae cryn dipyn o ganolbwyntio ar recriwtio, yn enwedig i rolau gofal cymdeithasol ac iechyd o hyd. Bydd proses newydd ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn dechrau unwaith y bydd strwythur uwch arweinyddiaeth newydd yn ei le, a phob Pennaeth Gwasanaeth wedi dechrau yn eu swyddi yn nes ymlaen eleni.

Cafodd Strategaeth y Gymraeg a'r Polisi Iaith Gymraeg eu cymeradwyo ym mis Mehefin 2023, a bydd y ddau ohonynt yn effeithio ar y gwaith o ddatblygu'r gweithlu a darparu gwasanaethau i gefnogi a chodi proffil y defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor ac yn y gymuned ehangach.

Cynhelir adolygiad Archwilio Mewnol o'r broses o gynllunio'r gweithlu yn y flwyddyn ariannol hon, 2023-2024.

### Cam Gweithredu Her Gwasanaeth:  Cydymffurfiaeth GDG

Mae recriwtio mwy diogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor.  Mae monitro wythnosol gan Gynorthwywyr AD wedi gwella'r broses ac mae rhagor o adroddiadau

wedi'u llunio er mwyn cynorthwyo'r Rheolwr AD â rheoli perfformiad. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn cydymffurfiaeth i 96% (cynnydd o 92% ers y cyfnod blaenorol). Mae'r 4% sy'n weddill ar y gweill ac mae statws 'heb ei weithredu' wedi'i bennu ar eu cyfer gan fod angen i staff gwblhau'r ddolen; bod angen i staff ddychwelyd eu dogfennau i'w gwirio; neu eu bod yn aros i broses y GDG gael ei chwblhau ac i dystysgrifau gael eu cyflwyno.

Mae dogfennau wedi'u diwygio er mwyn atgoffa rheolwyr sy'n recriwtio o'u rhwymedigaethau yn y broses recriwtio, i sicrhau bod yr holl wiriadau penodol wedi'u cynnal ar gyfer staff newydd cyn iddynt ddechrau. Mae gohebiaeth ar gyfer rheolwyr a gweithwyr newydd wedi'i ddiwygio, fel eu bod yn cynnwys y gwiriadau recriwtio mwy diogel sydd angen eu cynnal. Rydym yn disgwyl i'r cam hwn gael ei gwblhau yn ystod y cyfnod nesaf.

### Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Staff Asiantaeth

Ym mis Ebrill, cymeradwyodd y Cabinet broses gaffael ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint er mwyn dechrau tendro ar gyfer proses i ddarparu staff asiantaeth i'r ddau Gyngor, trwy wasanaeth a reolir. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor gontract mewn lle gyda chyflenwr allanol i ddarparu staff asiantaeth trwy wasanaeth a reolir, ac mae disgwyl iddo ddod i ben ar 28 Awst 2023.

### Datganiad Polisi Tâl

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiadau polisi tâl. Mae'n rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisïau'r awdurdod ei hun ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflog ei weithlu, yn arbennig ei uwch staff (neu "brif swyddogion"), a'i weithwyr ar y cyflogau isaf. Mae'n rhaid i'r Cyngor Sir gymeradwyo Datganiadau Polisi Tâl bob blwyddyn a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol. Ym mis Mai, bu i'r Cyngor Sir dderbyn yr argymhelliad gan y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth a chymeradwyo'r Polisi Tâl ar gyfer 2023-2024.

## Asedau

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. O ran asedau, rydym yn cyfeirio at ein rheolaeth o ystâd y Cyngor (yn cynnwys adeiladau

swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy'n eiddo i a/neu'n cael eu rheoli gan y Cyngor) ac asedau digidol.

### Strategaeth Rheoli Asedau

Mae aelod newydd o staff wedi'i benodi i'n Tîm Eiddo a bydd y cynllun portffolio diwygiedig cyntaf yn cael ei gyflwyno i'n Grŵp Rheoli Asedau ym mis Medi 2023. Bydd y gwaith datblygu cynlluniau portffolio yn llywio'r Strategaeth Rheoli Asedau Gorfforaethol newydd.

## Caffael

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Caffael yw'r broses mae'r Cyngor yn ei defnyddio i ddiwallu ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi, gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur.

### Arbenigedd Caffael Datgarboneiddio

Mae partner busnes datgarboneiddio wedi'i benodi a bydd yn dechrau yn y swydd ddechrau mis Medi 2023. Bydd deiliad y swydd yn edrych eto ar gontractau rhanbarthol wrth iddynt ddod i ben, er mwyn lleihau allyriadau carbon, lle bo modd, yn y dyfodol a nodi buddion cymunedol yng nghontractau'r Cyngor, sy'n lleihau allyriadau carbon ac yn cynyddu amsugniad carbon. Byddant hefyd yn gweithio â busnesau a chyflenwyr yn y sir i annog arferion carbon isel.

### Diogelu Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio o ran Caffael

Rhoddir ystyriaeth i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth yn holl brosesau caffael y Cyngor ac er mwyn gwella hyn rydym yn gweithio gyda'n tîm Newid Hinsawdd i lunio cwestiynau penodol i'w cynnwys mewn hysbysiadau caffael. Mae diogelu a gwella bioamrywiaeth hefyd yn rhan o'n dull o ran 'gofynion' buddion cymunedol contractwyr, sy'n gallu amrywio o gynlluniau plannu gwell, diogelu neu wella bioamrywiaeth, gweithio â phlant ysgol a chodi ymwybyddiaeth am ecoleg a bioamrywiaeth.

### Rheolau'r Weithdrefn Gontractau

Bydd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn cael eu diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus newydd y DU sydd i ddod i rym yn 2023-2024. Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy'r adroddiad hwn yn y cyfamser.

### Cefnogi Busnesau a Phartneriaid i Addasu

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, oherwydd deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth sy'n datblygu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae llawer iawn o ddisgwyliadau ynghlwm â chaffael (o ran beth a sut rydym yn caffael) a bydd cryn newid i arferion presennol; ar gyfer y Cyngor a'i wasanaethau caffael, busnesau a'r gadwyn gyflenwi. Nid yw canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y Ddeddf newydd wedi'u cwblhau eto.

Un maes gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan weithio ar draws y Cyngor, fydd dechrau darparu gweithgareddau buddion cymunedol a chaffael o fewn ein Cynllun Corfforaethol newydd; yn bennaf er mwyn gweithredu'r strategaeth gaffael newydd, a fydd unwaith y caiff ei chymeradwyo, yn pennu ein dull o gyflawni datgarboneiddio, egwyddorion Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a gofynion deddfwriaeth gaffael newydd Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn golygu gweithio ar draws y Cyngor i gefnogi cadwyn gyflenwi leol Sir Ddinbych. Dyma'r drafft terfynol o'r strategaeth, a gyflwynir i'r Cabinet ym mis Medi.

### Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

Yn dilyn llwyddiant Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru, a'r manteision o ran cost, gwerth ac amser caffael yn ei sgil, cymeradwyodd y Cabinet ym mis Mai gychwyn prosiect i gaffael Cam 3 Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru (mae disgwyl i gam 2 ddod i ben ym mis Mai 2024). Mae'r Fframwaith wedi bod yn sbardun ar gyfer ymgysylltu gydag a gwella sgiliau contractwyr lleol sy'n gweithredu o fewn y gadwyn gyflenwi ranbarthol, a bydd hyn yn annog contractwyr lleol i fod yn rhan o gam 3.

## Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

Cynhaliwyd Heriau Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Chynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Adroddir ar y camau gweithredu hyn ym mhrif gorff yr adroddiad hwn yn y cyfnod adrodd nesaf.

- Mae camau gweithredu Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cynnwys ymrwymiad i leihau'r defnydd o blastig yn y gwasanaeth arlwyo ysgolion; sicrhau bod cyfarfodydd un i un yn cael eu cynnal yn rheolaidd; ystyried y ffordd orau o hyrwyddo'r economi gylchol (h.y. ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu) eitemau'r cartref a gesglir (e.e. hyrwyddo siopau atgyweirio, ailwerthu eitemau mewn canolfannau ailgylchu ac ati); gwella'r modd y mae'r gwasanaeth yn gweithio â'n system gwasanaeth i gwsmeriaid, yn benodol o ran ymholiadau ac ymatebion gan aelodau; a gweithio gyda TGCh i wella sut mae'r gwasanaeth yn cyflawni ei swyddogaethau.
- Mae camau gweithredu Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad yn cynnwys: parhau i weithio ag AD i ystyried gwahanol ddewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau recriwtio; cydweithio mwy i gyflawni swyddogaethau arbenigol, megis swyddogaethau cynllunio gwastraff a mwynau neu ecoleg arbenigol; llunio crynodebau adfywio trefi; bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Gynaliadwy; adolygu safleoedd bws (a darparu rhagor o wybodaeth i aelodau) ac archwilio ffyrdd arloesol i bobl gael mynediad at gludiant; parhau i ymgysylltu ag aelodau a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â nhw ar bob cam yn ymwneud â materion gwasanaeth; ac ehangu gweithgarwch planhigfeydd coed y Cyngor.